# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach drwy Zoom, Dydd Mercher, 20 Hydref 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
   **Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

3. **Safonau Masnach (Scamiau) (Tudalennau 3 - 8)**

4. **Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr 2020-2021 (Tudalennau 9 - 32)**

5. **Adroddiad Blynyddol 2020-2021 Grwp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru (Tudalennau 33 - 54)**

6. **Cadarnhau Cofnodion cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Iachach 22.9.2021 ac ystyried unrhyw fater sy'n codi (Tudalennau 55 - 60)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

Edwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 20fed Hydref 2021 |
| **Teitl:** | Safonau Masnach (diweddariad ar sgamiau) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor Craffu ar sgamiau a materion yn ymwneud â throseddau ar garreg y drws a'r gwaith a wneir gan Safonau Masnach. |
| **Er** | Er gwybodaeth |
| **Portffolio Cabinet: Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Lloyd - Diogelu'r Cyhoedd |

**Cefndir**

Yn gyffredin â'r rhan fwyaf o awdurdodau safonau masnach ledled Cymru a Lloegr, mae Tîm Safonau Masnach Ceredigion, fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, yn defnyddio'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr, a sefydlwyd ac a ariennir yn genedlaethol gan lywodraeth ganolog, i gynnig cyngor sifil i ddefnyddwyr ac i weithredu fel porthol ar gyfer atgyfeiriadau i dimau safonau masnach awdurdodau lleol. Caiff gwybodaeth berthnasol ei throsglwyddo wedyn i bob awdurdod lleol yn ddyddiol iddynt hwy gymryd unrhyw gamau gweithredu priodol. Mae'r Tîm Safonau Masnach yn gofyn ar i 100% o gŵynion ynghylch sgamiau a throseddau ar garreg y drws gael eu trosglwyddo iddynt.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn defnyddio'r Model Gweithredu Cudd-wybodaeth Cenedlaethol i ddynodi blaenoriaethau ar sail niwed i ddefnyddwyr a bregusrwydd, ac mae sgamiau a throseddau ar garreg y drws yn ymddangos yn gyson yn y 5 maes blaenoriaeth uchaf.

Yn 2019/20 derbyniodd y Tîm Safonau Masnach 552 adroddiad gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr ac roedd 40 o'r rhain yn ymwneud yn benodol â sgamiau a throseddau ar garreg y drws.

Derbyniodd y Tîm atgyfeiriadau hefyd gan y Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol. Mae'r Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol yn ein galluogi i:

- Ddynodi dioddefwyr twyll marchnata ar raddfa fawr yng Ngheredigion
- Ymweld â'r dioddefwyr lleol hyn a'u cefnogi
- Dychwelyd arian a gymerwyd yn ôl gan y Tîm Safonau Masnach Cenedlaethol i ddioddefwyr sgamiau.

Yn ystod yr un cyfnod, ymdriniodd y Tîm Safonau Masnach â 48 atgyfeiriad gan y Tîm Safonau Masnach Cenedlaethol mewn perthynas â dioddefwyr sgamiau; caiff pob adroddiad ei frysbennu ac mae'r ymyrraeth yn dibynnu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r unigolyn hwnnw.

**Sgamiau**
Yn ddigon trist, mae sgamiau wedi dod yn rhan o fywyd bob dydd ac maent yn mynd yn fwyfwy soffistigedig ac yn datblygu'n gyflym pan gyfyd cyfle i dwyllo, er enghraifft, gyda'r Covid-19 cyfredol neu fentrau'r Fargen Werdd. O ran sgamiau o'r fath, mae troseddwyr sy'n cynnal y mathau hyn o sgamiau wedi'u lleoli, yn gyffredinol, y tu allan i'r sir ac, ond yn rhy aml, y tu allan i'r DU, sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn eu herlyn o fewn ein hawdurdod gorfodi lleol.

Mae Action Fraud yn adrodd bod £2.5 biliwn wedi'i golli yn sgil sgamiau ers cychwyn y cyfnod clo, a dim ond yr hyn a gofnodwyd a geir yma - mae'n debygol bod y ffigwr gwirioneddol dipyn yn uwch. Maent yn droseddau cymharol rwydd i'w cyflawni, mae'r elfen o risg i'r troseddwr yn is nag mewn llawer o weithgareddau troseddol eraill gan fod y troseddau, gan mwyaf, yn derbyn cosb annigonol ac mae nifer o'r partneriaid gorfodi, os nad y cyfan ohonynt, yn cael pethau'n anodd o ran adnoddau.

**Sgamiau sy'n gysylltiedig â Covid-19**
Yn ystod y pandemig, a nifer o bobl yn gorfod aros gartref, daeth nifer o aelwydydd yn ddibynnol ar gysylltedd da â'r rhyngrwyd ar gyfer siopa ar-lein, gweithio gartref, derbyn addysg gartref, tanysgrifiadau i adloniant ar-lein, ac ati, ac roedd y sgamiau cyflenwi ac ar-lein nodweddiadol y byddai twyllwyr yn rhoi cynnig arnynt er mwyn gwneud arian ar draul y cyhoedd diarwybod yn cynnwys:

- Anfon negeseuon testun ac e-bost at bobl i'w hudo i wneud cais am frechlyn Covid-19
- Neges awtomatig yn dweud bod BT yn mynd i atal dros dro y band eang gan fod y cyfeiriad IP wedi'i gyfaddawdu, a neges yn gofyn i'r derbynnydd 'bwyso 1' er mwyn parhau.
- Neges awtomatig yn dweud bod yr alwad gan Amazon Prime ac yn honni y byddai tâl o £79 yn cael ei godi am Amazon Prime ar gerdyn y derbynnydd.
- Neges destun, yn ôl pob golwg, gan Y Post Brenhinol, yn datgan bod angen aildrefnu danfon pecyn neu bod eitem yn aros i'w chasglu, ac yn gofyn i'r derbynnydd bwyso dolen 'bit.ly'

O'r 740 adroddiad/cwyn gan ddefnyddwyr a dderbyniwyd gan y Tîm Safonau Masnach ers dechrau'r pandemig, roedd 67 achos yn gysylltiedig â defnyddwyr Ceredigion wedi profi rhyw fath o arfer masnachu annheg uniongyrchol yn sgil Covid-19 e.e. tor contract, gwerthwyr yn gwrthod ad-dalu a dychwelyd blaendaliadau ar wyliau/priodasau/digwyddiadau a ganslwyd neu fethiant i ddarparu gwasanaeth, ac ati.

**Troseddau ar Garreg y Drws**
Gall troseddau ar garreg y drws effeithio ar unrhyw un ond, yn aml, pobl oedrannus a phobl fregus sy'n cael eu targedu gan fasnachwyr twyllodrus yn cynnig gwelliannau i'r cartref neu wasanaethau garddio ac ati. Mae troseddau ar garreg y drws yn aml yn ganlyniad i alwad diwahoddiad cychwynnol. Bydd masnachwyr diegwyddor yn gwneud gwaith diangen, eilradd a pheryglus hyd yn oed, ar brydiau, ac yna'n defnyddio tactegau cryf i berswadio'r defnyddwyr i dalu symiau mawr o arian am grefftwaith gwael.

Mae'r Tîm Safonau Masnach yn gweithio'n agos gyda phartneriaid fel Heddlu Dyfed-Powys i geisio dyrchafu effaith ei weithgareddau i'r eithaf yn lleol ac osgoi dyblygu. Caiff yr holl gudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â sgamiau a throseddau ar garreg y drws

ei hychwanegu at gronfa ddata gudd-wybodaeth ganolog a ddosberthir i'r Heddlu ac asiantaethau gorfodi eraill fel y bo'n briodol.

Mae ymateb y Tîm Safonau Masnach i achosion o droseddau ar garreg y drws wedi'i seilio fwy ar orfodaeth ac mae'r Tîm yn ceisio ymateb i bob un yr adroddir arno, gyda chymorth yr heddlu, lle'n bosibl.

Mae ymchwilio i'r math hwn o weithgarwch masnachu twyllodrus ac amddiffyn defnyddwyr bregus rhagddo yn parhau'n flaenoriaeth i'r Tîm Safonau Masnach. Mae gan y Gwasanaeth nifer o ymchwiliadau ar y gweill ar hyn o bryd, ac mae un erlyniad yn aros am ddedfryd. Atodir canlyniadau ein herlyniadau diweddaraf mewn perthynas â masnachwyr diegwyddor/twyllodrus yn yr adroddiad yn Atodiad A.

Yn achos ymchwiliadau'n ymwneud ag unigolion/busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru y mae eu gweithgarwch troseddol yn croesi ffiniau sirol, mae Safonau Masnach Cymru, wedi'i ariannu gan Safonau Masnach Cenedlaethol, wedi sefydlu Tîm Ymchwilio Rhanbarthol sy'n cynorthwyo awdurdodau lleol Cymru gydag ymchwiliadau mawr/cymhleth sy'n cynnwys nifer o awdurdodau gan nad oes gan nifer o wasanaethau Safonau Masnach awdurdod lleol yr adnoddau a'r capasiti bellach i ymgymryd ag ymchwiliadau mawr.

Mae'r Gwasanaeth, hefyd, yn ceisio arddel dull ehangach, mwy blaengar o weithredu ochr yn ochr â'n gweithdrefnau gorfodi arferol. Mae'r canlynol yn cynnwys enghreifftiau y mae mentrau'r Tîm Safonau Masnach, gan weithio gyda phartneriaid (yn enwedig Safonau Masnach Cenedlaethol), yn gysylltiedig â nhw:

- Protocol bancio cenedlaethol y DU; menter y gall staff y canghennau hysbysu'r Heddlu/Safonau Masnach drwyddi ynghylch sgamiau a amheuir, yn aml pan fo'r tramgwyddwr a/neu'r dioddefwr yn dal ar safle'r banc.
- Menter genedlaethol gyda Y Post Brenhinol i ddynodi a dileu post sgam o'r system bost.
- Darparu sgyrsiau a chyflwyniadau i grwpiau cymunedol ar ymwybyddiaeth o sgamiau.
- Mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan mewn mentrau partner cenedlaethol megis Wythnos Genedlaethol Masnachwyr Twyllodrus, Pythefnos Sgamiau a Mis 'Scamnesty';

Cynhelir wythnos o weithredu aml-asiantaeth wedi'i gynllunio yng Nghymru rhwng 11eg a 15fed Hydref 2021. Gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gorfodi eraill, e.e. Heddlu Dyfed-Powys, CThEM (HMRC), Yr Adran Gwaith a Phensiynau, DVSA ac ati, bwriad yr wythnos weithredu yw dadleoli a tharfu ar fasnachu twyllodrus yng Nghymru, cymryd camau gorfodi ar gyfer unrhyw droseddau neu ddigwyddiadau a ddynodir adeg yr ymarfer, darparu neges gref mewn perthynas â throseddau ar garreg y drws yn ogystal â chynnig cymorth i ddefnyddwyr bregus drwy atal achosion o fasnachu twyllodrus rhag digwydd a gwneud atgyfeiriadau diogelu lle bo angen.

**Crynodeb**

I grynhoi, mae'n debyg ei bod yn rhesymol siarad am 'epidemig' byd-eang sgamiau a throseddau ar garreg y drws, a bod effaith andwyol iawn ar ddefnyddwyr a busnesau dan sylw.

Mae capasiti cyfredol y Tîm Safonau Masnach, o ystyried ystod eang gweithgareddau rheoleiddiol eraill y mae Safonau Masnach yn ymgymryd â nhw, ond yn caniatáu iddo gael ei arwain gan gudd-wybodaeth a chanolbwyntio ei adnoddau ar weithgarwch gorfodi sy'n gysylltiedig â masnachwyr twyllodrus/diegwyddor sy'n gweithredu yng Ngheredigion. Er bod gan orfodaeth ei rôl, mae'r Gwasanaeth hefyd yn ceisio arddel dull ehangach, mwy blaengar o weithredu ochr yn ochr â'n gweithdrefnau gorfodi arferol, ond mae'n dymuno y byddai ganddo mwy o adnoddau i ymgymryd â gwaith mwy ataliol drwy godi ymwybyddiaeth ac addysg.

| | | |
|---|---|---|
| **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** | | Na |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Crynodeb Hirdymor:** | |
| | **Cydweithio:** | |
| | **Cynnwys:** | |
| | **Atal:** | |
| | **Integreiddio:** | |
| **Argymhelliad/Argymhellion:** | | Bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn nodi'r materion a ddisgrifir. |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | | Darparu gwasanaeth safonau masnach sy'n addas i'r diben. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | | |
| **Fframwaith Polisi:** | | Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | | • Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | | O fewn y gyllideb |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | | Dim |
| **Goblygiadau Staffio:** | | Dim |
| **Goblygiadau Eiddo/Asedau:** | | Dim |
| **Risg/Risgiau:** | | Her gyfreithiol/niwed i enw da - mae deddfwriaeth wedi rhoi dyletswydd ar yr |

| | |
|---|---|
| | Awdurdod i orfodi darpariaethau Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 a Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008, ac ati |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 |
| **Papurau Cefndir:** | Dim |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams (Polisi a Pherfformiad) |
| **Swyddog Adrodd:** | Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) |
| **Dyddiad:** | 14eg Medi 2021 |

**Atodiad A**

**Erlyniadau Safonau Masnach**

1. **Danny McClelland yn masnachu drwy "DVC Home Improvements"**

   Llys: Ynadon Aberystwyth
   Dyddiad yr achos llys: 17eg Rhagfyr 2020
   Diffynnydd: Danny McClelland yn masnachu drwy "DVC Home Improvements"
   Ple: Pledio'n euog
   Natur y drosedd/troseddau: Arferion masnachu twyllodrus/annheg
   Dedfryd: 16 wythnos o garchar wedi'i ohirio am ddwy flynedd a gorchymyn i wneud 15 niwrnod o weithgarwch adsefydlu, 200 awr o waith di-dâl a thalu iawndal o £2,000 i'r dioddefwr o fewn 14 niwrnod.
   Cost yr Erlyniad: £2,159.64
   Gordal y Llys: £122.

2. **Colin Harding**

   Llys: Ynadon Aberystwyth
   Dyddiad yr achos llys: 17eg Rhagfyr 2020
   Diffynnydd: Colin Harding
   Ple: Pledio'n euog
   Natur y drosedd/troseddau: Troseddau'n ymwneud â thwyll a diogelwch cynnyrch
   Dedfryd: Gorchymyn Cyrffyw o 12 mis â monitro electronig o 7pm hyd 7am a gorchymyn i dalu iawndal o £250 o fewn 14 niwrnod
   Cost yr erlyniad: £750
   Gordal y Llys: £90

Roedd Harding eisoes wedi cael ei ddedfrydu gan Safonau Masnach am dwyll a throseddau'n ymwneud â diogelwch cynnyrch a rhoddwyd dedfryd ohiriedig iddo am y troseddau blaenorol hynny; digwyddodd y drosedd ddilynol hon pan oedd ar ddedfryd ohiriedig.

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach |
| **DYDDIAD:** | 18fed Hydref 2021 |
| **LLEOLIAD:** | MS Teams |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2020-21 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi adroddiad ar gyflawniadau Uned Gofalwyr Ceredigion a'i chynnydd yn erbyn ei thargedau a'i hamcanion y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn 2020-2021 |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Er gwybodaeth. |

**CEFNDIR:**

Gofalwr yw 'Unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu aelod o'r teulu na all ymdopi heb eu cefnogaeth oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth'.

Mae gan ofalwyr hawl i fywyd y tu hwnt i'w rôl ofalu ac i wneud hynny, mae angen gwasanaethau effeithiol arnyn nhw i gefnogi'r bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw ac iddyn nhw fel Gofalwyr yn eu rhinwedd eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at "Cymru: Gwlad sy'n Cefnogi Gofalwyr", gan nodi bod Gofalwyr di-dâl o bob oed yn rhan werthfawr o gymdeithas. Ledled Cymru mae dros 370,000 o Ofalwyr di-dâl yn ymgymryd â 96% o ofal ar lefel gymunedol. Credir bod y nifer hwn wedi cynyddu'n ddramatig o ganlyniad i COVID. Ar ben hynny, mae Gofalwyr yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol trwy ddal teuluoedd gyda'i gilydd, gan alluogi'r rhai y maent yn gofalu amdanynt i gael y gorau o fywyd wrth wneud cyfraniad enfawr i gymdeithas ac arbed biliynau o bunnoedd i'r economi bob blwyddyn.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi hawl gyfartal i Ofalwyr i asesu eu hanghenion fel y rheini y maent yn gofalu amdanynt. O dan y ddeddf, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cynllun cymorth i helpu Gofalwyr i sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw. Symud ymlaen â chamau i sicrhau bod yr hawliau gwell hyn yn cael eu cydnabod a'u gweithredu'n weithredol. Y 3 blaenoriaeth genedlaethol yw:

- Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu - Rhaid i bob Gofalwr gael seibiannau rhesymol o'u rôl ofalu i'w galluogi i gynnal eu gallu i ofalu, a chael bywyd y tu hwnt i ofalu.
- Nodi ac adnabod Gofalwyr – Yn hanfodol i lwyddiant cyflawni gwell canlyniadau i Ofalwyr yw'r angen i wella cydnabyddiaeth Gofalwyr o'u rôl ac i sicrhau y gallant gael gafael ar y cymorth angenrheidiol.

- Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth - Mae'n bwysig bod Gofalwyr yn cael y wybodaeth briodol a'r cyngor priodol ble a phryd y mae eu hangen arnynt.

**SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

**DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i wella bywydau Gofalwyr, ac i wella cefnogaeth, gwasanaethau a chydnabyddiaeth Gofalwyr yng Ngheredigion yn barhaus. Mae'r Ddeddf yn rhoi diffiniad o **Ofalwr** fel *"person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl"*. Mae hyn yn dileu'r gofyniad bod rhaid i ofalwyr roi "swm sylweddol o ofal ar sail reolaidd".

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** | |
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Cydbwyso angen tymor byr ag angen hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant a cheisio bod o fudd i'r tri |
| | **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni |
| | **Cynnwys:** | Cynnwys y rheini sydd â diddordeb a gofyn am eu barn |
| | **Atal:** | Rhoi adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu |

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**

I rannu gwybodaeth ac i dderbyn sylwadau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach / Cabinet.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**

**Enw Cyswllt:** Sara Humphreys

| | |
|---|---|
| **Swydd:** | Rheolwr Tîm Gofalwyr Gydol Oed a Chymorth Cymunedol, Uned Gofalwyr Ceredigion |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | **15/09/21** |
| **Acronymau:** | |

# Uned Gofalwyr

**Adroddiad Blynyddol**
2020-2021

*Mae GOFALWYR o bwys i bawb*

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Mae unrhyw un sy'n darparu gofal di-dâl i ffrind neu aelod o'r teulu oherwydd salwch, eiddilwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethiwed, ac nad ydynt yn gallu ymdopi heb eu cymorth, yn Ofalwr.

Nod yr Uned Gofalwyr yw gwella ansawdd ac amrediad y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael er mwyn bodloni anghenion gofalwyr o bob cefndir ac oedran gan gynnwys rhieni sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc.

# Cynnwys


3 Cyflwyniad

5 Ymateb i bendemig Covid-19

7 Amcanion Busnes 2020/21

13 Sut mae Gofalwyr yn llywio ein gwasanaeth?

14 Gweithio mewn partneriaeth

15 Blwyddyn, cipolwg

17 Ffocws ar...


20 Crynodeb: beth mae angen i ni ei wneud nesaf?

21 Amcanion y Cynllun Busnes - 2021/22

# Cyflwyniad

## Neges wrth Swyddog Datblygu Gofalwyr Sara Humphreys

Hoffwn gyflwyno adroddiad blynyddol yr Uned Gofalwyr ar gyfer 2020-21. Does dim dwywaith bod hon wedi bod yn flwyddyn anodd i bawb, a'r pandemig wedi effeithio ar ofalwyr di-dâl yn arbennig. Rydym wedi gweithio i sicrhau bod y wybodaeth a'r gefnogaeth a ddarperir drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr wedi parhau i gael eu darparu, er mewn ffordd wahanol ar adegau. Rydym hefyd wedi datblygu cefnogaeth newydd i ofalwyr Ceredigion tra'n parhau i weithio gyda phartneriaid ledled rhanbarth Gorllewin Cymru a thu hwnt i hynny gan ddylanwadu ar wasanaethau i ofalwyr ledled Cymru.



40%

**Rydym wedi sicrhau cynnydd o 40% yn aelodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr.**

Dyma'r cynnydd mwyaf ers i'r gwasanaeth ddechrau, a hynny ar yr adeg fwyaf heriol. Mae mwy o ofalwyr yn cydnabod eu rôl fel gofalwyr ac yn mynd at y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Lansiwyd yn llwyddiannus gennym y Cerdyn Gofalwr a'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc. Roeddwn yn hynod o falch mai Ceredigion oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i lansio Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc o dan brosiect Cerdyn Adnabod Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi parhau i ddatblygu'r rhaglen Cydnerthedd a Lles ar gyfer gofalwyr a gofalwyr ifanc ledled y rhanbarth drwy ddatblygu adnoddau a darparu hyfforddiant rhithwir i hwyluswyr cyrsiau i'w galluogi i roi'r rhaglen i ofalwyr o bob oed y maent yn gweithio gyda nhw ar waith.

Ar waetha'r cyfnodau clo dros y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd ansawdd y gwaith y wnaed gan yr Uned Gofalwyr o'r safon uchaf. Dengys hyn ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o dîm yr Uned Gofalwyr at gefnogi gofalwyr di-dâl. Rhaid diolch hefyd i'r gwasanaethau ehangach o fewn y Cyngor a'n cefnogodd wrth i ni gyflawni ein hamcanion. Gobeithio y gwnewch fwynhau darllen am y gwaith a wnaed gennym yn ystod 2020-21 er mwyn sicrhau bod gofalwyr Ceredigion yn cael eu cefnogi yn eu rôl ofalu.

Cysylltu Gofalwyr Connecting Carers CEREDIGION

## Neges wrth Pencampwr Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion

**Cynghorydd Catherine Hughes**

Mae'n bleser gennyf, fel yr Eiriolwr dros Ofalwyr, gyfrannu at Adroddiad Blynyddol 2020-2021. Ychydig a wyddem ddechrau 2020 beth oedd o'n blaenau!

Mae'r gwaith a wnaed gan yr Uned Gofalwyr a Phorth Cymorth Cynnar i gefnogi ein gofalwyr di-dâl gydol y flwyddyn wahanol iawn hon wedi bod yn ddim llai na gwyrthiol. Bu'n rhaid i ni gyd ddysgu gweithio mewn ffyrdd newydd a blaengar; rydyn ni wedi ei "swmio" hi i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau gwahanol! Cefais y pleser o fynd i rai cyfarfodydd drwy Zoom ac roedd yn dda siarad â gofalwyr a chlywed am eu problemau a'u pryderon. Roedd gweithio fel uned gyda'n partneriaid i sicrhau bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn un ffordd o fod yno ar gyfer ein gofalwyr.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r holl waith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf a rhaid i ni ddiolch am hynny i bob aelod staff yn yr Uned Gofalwyr sydd yno'n barhaus i ofalwyr o bob oed.

## Neges wrth Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cymorth Cynnar

**Elen James**

Mae'n bleser derbyn Adroddiad Blynyddol 2020-21 gan Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion. Hoffwn longyfarch y tîm a'i bartneriaid ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae bod yn ofalwr yn aml yn gyfrifoldeb 24/7 a gall fod yn gyfnod unig, llawn straen i'r gofalwr. Mae'r cymorth, y gefnogaeth a'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Uned Gofalwyr yn amhrisiadwy ac rwy'n eithriadol o falch o'r hyn a gyflawnwyd ganddynt yn 2020-21.

Cynlluniodd yr Uned Gofalwyr a'r partneriaid lleol a chenedlaethol ystod eang o weithgareddau ar gyfer Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin a Diwrnod Hawliau Gofalwyr ym mis Tachwedd. Bûm yn ffodus o fynd i rai o'r digwyddiadau rhithwir. Mae'n wych gweld y cydweithio gyda'r partneriaid rhanbarthol a'r trydydd sector wrth roi cymorth i ofalwyr, darparu pecynnau gwybodaeth, cynnig gweithgareddau a chyfleoedd i rwydweithio.

Efallai'n wir mai tîm bychan yw'r Uned Gofalwyr ond mae'n adnodd pwysig o wybodaeth a gweithgarwch sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gofalwyr a Chyngor Sir Ceredigion fel ei gilydd. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Sara a'i thîm ymroddedigar am y gwaith rhagorol a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn ac am yr holl gymorth a chefnogaeth a ddarparwyd ganddynt i drigolion Ceredigion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n hyderus y bydd yr Uned Gofalwyr yn parhau i gynnal yr un safon uchel o wasanaeth yn 2021-22.

Cysylltu Gofalwyr Connecting Carers CEREDIGION

# Ymateb i bendemig Covid-19

## Be wnaethom ni?

**YN GRYNO**

### Gwasanaeth gwirio lles

- Cysylltu â mwy nag 800 o ofalwyr
- Rhoi sicrwydd a gwybodaeth
- Dynodi problemau
- Cynnig cefnogaeth

### Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr

- Parhau i ddarparu'r gwasanaeth
- Darparu gwybodaeth a chyngor
- Cynhyrchu, argraffu a dosbarthu Cylchgrawn y Gofalwyr
- Cynhyrchu a dosbarthu newyddlenni Covid-19
- Cyflwyno 'pytiau o newyddion' i ofalwyr i roi gwybodaeth gyfredol am newyddion, gwasanaethau a chymorth i ofalwyr

### Lansio Cardiau Adnabod Gofalwyr

- Cerdyn Gofalwr
- Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc
- Tystiolaeth ffurfiol o rôl a chyfrifoldebau gofalu
- Rhoi tawelwch meddwl i ofalwyr yn ystod y cyfnod clo
- Mynediad i amserau siopa blaenoriaeth

**DARPARIAETH RITHWIR**

### Darparu digwyddiadau a gweithgareddau

- Wythnos Gofalwyr, Mehefin 2020
- Diwrnod Hawliau Gofalwyr, Tachwedd 2020
- Darparu sesiynau gwybodaeth a gweithgareddau yn rhithiol· Dosbarthu gweithgareddau i ofalwyr drwy'r post
- Pecynnau Lles i Ofalwyr
- Te Prynhawn Cymreig: 'seibiant mewn bocs'

# Ymateb i bendemig Covid-19: yn fanwl



Ddechrau'r cyfnod clo, ym mis Ebrill 2020, sefydlwyd gwasanaeth 'gwirio lles' gennym yn dilyn y cyhoeddiad cychwynnol ynghylch y cyfnod clo. Cysylltwyd â phob aelod o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr (dros 800 o ofalwyr) drwy e-bost, llythyr neu ffôn i wneud cyswllt eto'n rheolaidd â gofalwyr yr oedd angen mwy o gefnogaeth arnynt ar ffurf 'gwirio lles'.

Er na chaniatawyd cyswllt wyneb yn wyneb, roedd yn bwysicach nag erioed i drosglwyddo'r wybodaeth gyfredol berthnasol i ofalwyr. Er mwyn gwneud hyn, cynhyrchwyd newyddlenni atodol Covid-19 ag ynddynt wybodaeth i ofalwyr. Fe'u dosbarthwyd i aelodau o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr a chyflwynwyd gwybodaeth hefyd i ofalwyr eraill drwy wefan Cyngor Sir Ceredigion.

Er mwyn parhau i gefnogi lles gofalwyr o dan gyfyngiadau'r pandemig, datblygwyd ffyrdd arloesol newydd gennym i ddarparu hyfforddiant, gweithgareddau a digwyddiadau i ofalwyr lle nad oedd cyswllt wyneb yn wyneb yn angenrheidiol. Er mwyn dathlu Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin 2020, a Diwrnod Hawliau Gofalwyr ym mis Tachwedd 2020, darparwyd ystod eang o weithgareddau yn rhithiol dros Zoom. Roedd gofalwyr heb fynediad i'r we yn gallu cael mynediad i'r gweithgareddau drwy ffôn arferol fel na fyddai gofalwyr nad oedd yn weithredol yn ddigidol yn cael eu hepgor. Cyhoeddwyd cyfarwyddiadau ynghylch ymuno a chael mynediad i Zoom yng Nghylchgrawn y Gofalwyr ynghyd â chefnogaeth arall ar ddatblygu sgiliau digidol.

I gydnabod yr oll y mae gofalwyr yn ei wneud ac i ddangos ein gwerthfawrogiad, danfonwyd Pecynnau Lles i ofalwyr ym mis Mehefin 2020, a danfonwyd Te Prynhawn Cymreig: 'seibiant mewn bocs' ym mis Mawrth 2021. Cysylltodd nifer fawr o ofalwyr â ni i ddweud pa mor ddiolchgar a gwerthfawrogol yr oeddent o'r rhoddion.

Wrth i ni agosáu at y fan lle mae'r brechlynnau yn cael eu darparu'n eang a phethau'n ymddangos yn fwy cadarnhaol ar gyfer y dyfodol, mae'n dod yn fwyfwy eglur bod Covid-19 yn rhywbeth y bydd yn rhaid i ni ddysgu byw ag ef ac mae'n edrych yn debyg na fydd gwasanaethau yn ôl fel ag yr oeddent yn y dyfodol agos. Rhaid i ni aros yn gadarnhaol a pharhau i addasu a chryfhau gwasanaethau i fodloni anghenion gofalwyr yn ystod y pandemig a thu hwnt iddo.

Amcan Busnes #1

# Galluogi gofalwyr i gael bywyd y tu hwnt i ofalu

## Be wnaethom ni?

### MEWN RHIFAU

Ailagorwyd Cronfa Gofalwyr Ceredigion gyda
**£36,500**
i'w ddyfarnu i Ofalwyr er mwyn gwella iechyd a lles-

Cefnogi **Gofalwyr Ceredigion Carers** i ddarparu
**1497**
awr o ofal amgen i ofalwyr er mwyn rhoi seibiant iddynt o'r rôl ofalu

Prosesu
**251**
cais i'r Gronfa Gofalwyr

Danfon
**1040**
Te Prynhawn Cymreig 'Seibiant mewn Bocs' i ofalwyr

Danfon
**850**
o becynnau lles i ofalwyr

Gweithredu dros Blant

Cynorthwyo Gweithredu dros Blant i gefnogi
**83**
o ofalwyr ifanc a gofalwyr Ifanc sy'n Oedolion i gael bywyd y tu hwnt i'w rôl ofalu



Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu
**82**
o sesiynau dysgu a gweithgareddau i ofalwyr



Cyflwyno
**276**
cerdyn gofalwr i ofalwyr a gofalwyr ifanc

Gweithredu dros Blant

Cefnogi Gweithredu dros Blant i ddarparu
**100**
o focsys ac arweinlyfr lles i ofalwyr ifanc

# Amcan Busnes #1: crynodeb

## Beth oedd yr heriau?

- Uwchsgilio staff ar ddulliau, platfformau a ffyrdd o ddarparu yn rhithiol
- Addasu'r hyfforddiant a'r adnoddau i'w defnyddio wrth ddarparu yn rhithiol
- Darparu digwyddiadau a gweithgareddau heb gyswllt wyneb yn wyneb
- Ymgysylltu â gofalwyr nad ydynt yn weithredol yn ddigidol, a rhoi cefnogaeth iddynt yn hyn o beth
- Caffael stoc, paratoi a danfon Pecynnau Lles o dan gyfyngiadau'r pandemig
- Cefnogi gofalwyr i gael seibiannau heb wasanaethau wyneb yn wyneb

## Beth aeth yn dda?

- Datblygu a lansio'r Cerdyn Gofalwr
- Cronfa Gofalwyr
- Pecynnau Lles a Te Cymreig 'Seibiant mewn Bocs'
- Digwyddiadau/ gweithgareddau rhithwir
- Postio gweithgareddau i ofalwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol iddynt eu gwneud yn eu cartrefi
- Gweithio gyda phartneriaid allanol
- Cydweithio â gwasanaethau eraill y cyngor

**Dywedodd gofalwr...**

"Roedd y danteithion yn hyfryd ond roedd gwybod bod rhywrai yn meddwl amdana i ac yn gwerthfawrogi'r hyn rwy'n ei wneud yn golygu cymaint mwy"

## Beth ddylai ddigwydd?

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu sesiynau a digwyddiadau i ofalwyr ifanc
- Gweithio gydag athrawon ac arweinyddion ym maes gofal i sefydlu Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc mewn ysgolion
- Archwilio i ffyrdd o ddarparu sgyrsiau, gweithdai, gwybodaeth, cefnogaeth a gweithgareddau sy'n cydymffurfio â Covid-19 i gynnwys y rhai nad ydynt yn weithredol yn ddigol

Amcan Busnes #2

# Gwella adnabyddiaeth gofalwyr o'u rôl fel y gallant gael mynediad i'r gefnogaeth angenrheidiol

## Be wnaethom ni?

### MEWN RHIFAU

**366**
gofalwr **newydd** yn ymuno â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr

Cyrraedd
**230,705**
o bobl drwy bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo digwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau i ofalwyr

Derbyn
**171**
ffurflen gyfeirio a chofrestru newydd gan feddygfeydd teuluol

Darparu sesiynau hyfforddiant cydnerthedd a lles gofalwyr i
**37**
unigolyn yn rhan o'r ddarpariaeth ranbarthol

**40**
o'r staff gofal cymdeithasol yn derbyn hyfforddiant asesu anghenion cefnogi gofalwyr

Darparu sesiynau sefydlu/gwybodaeth i
**32**
aelod staff i'w cynorthwyo i adnabod a chefnogi gofalwyr

Darparu
**4**
sesiwn galw heibio misol ar gyfer staff â rôl ofalu (dechrau ym mis Tachwedd 2020)

**80**
o staff Cyngor Sir Ceredigion yn cwblhau hyfforddiant e-ddysgu ymwybyddiaeth o ofalwyr

# Amcan Busnes #2: crynodeb

## Beth oedd yr heriau?

- Addasu ac ail-lunio adnoddau hyfforddiant ar gyfer darparu’n rhithiol
- Gwneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol i roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- Dod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu o bell â staff sy’n gofalu sydd â chyfrifoldebau gofalu yn eu bywyd personol
- Addasu prosesau i gyd-fynd â gweithio gartref

## Beth aeth yn dda?

- Gwella cyrhaeddiad y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr
- Hybu’r Cyfryngau Cymdeithasol
- Datblygu adnoddau cydnerthedd a lles gofalwyr
- Gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol

**Dywedodd gofalwr...**

"Ry’n ni’n gwerthfawrogi’r hyn rydych chi’n ei wneud. Mae’r wybodaeth ry’ch chi’n ei rhoi, y cyswllt personol a’r gefnogaeth a ddarperir gennych yn cyffwrdd â rhywun."

## Beth ddylai ddigwydd?

- Parhau i hwyluso a datblygu sesiynau galw heibio misol ar gyfer staff sy’n ofalwyr a gweithio gydag Adnoddau Dynol i wella’r gefnogaeth ar eu cyfer
- Datblygu ymhellach elfen y gofalwyr yn y gweithle yn y rhaglen gydnerthedd a lles gofalwyr

### Amcan Busnes #3

# Gofalwyr yn cael y cyngor a'r wybodaeth briodol ble a phryd y bydd eu hangen arnynt

## Be wnaethom ni?

**MEWN RHIFAU**

Argraffu a dosbarthu

**3600**

Cylchgrawn y Gofalwyr ledled Ceredigion

Cynyddu aelodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr o

**40%**

i

**1158**

gofalwr

Anfon

**4143**

neges drwy e-bost/post yn uniongyrchol i ofalwyr â gwybodaeth i'w cefnogi yn eu rôl ofalu

**361**

o bobl yn ymgysylltu neu'n dod i weithgareddau i ofalwyr neu sesiynau gwybodaeth/dysgu

Dosbarthu llyfrau am gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol i

**850**

o gofalwr

Cefnogi

**Gofalwyr Ceredigion Carers**

i ddarparu gwybodaeth a chyngor i

**388**

gofalwr

Gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr a chydlynu rhaglenni o weithgareddau i gyd-fynd â

**3**

digwyddiad cenedlaethol i ofalwyr

DIWRNOD GWEITHREDU GOFALWYR IFANC
16 MAWRTH 2021

# Amcan Busnes #3: crynodeb

## Beth oedd yr heriau?

- Uwchsgilio staff yn gyflym i ddefnyddio technoleg ddigidol ac amryfal blatfformau gwahanol i roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- Darparu cefnogaeth, digwyddiadau a gweithgareddau heb gyswllt wyneb yn wyneb
- Ymgysylltu â gofalwyr nad ydynt yn weithredol yn ddigidol, a rhoi cefnogaeth iddynt
- Addasu adnoddau hyfforddiant i'w defnyddio wrth ddarparu'n rhithiol

## Beth aeth yn dda?

- Cynnydd yn aelodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr
- Digwyddiadau a gweithgareddau Gofalwyr
- Mwy o ddarpariaeth gwybodaeth electronig i ofalwyr

### Dywedodd gofalwr ...

"Diolch, Dîm, am gylchgrawn rhagorol, llawn gwybodaeth arall - cyforiog yn wir! Ry'n ni'n ei werthfawrogi."

## Beth ddylai ddigwydd?

- Adolygu strwythur a chynnwys pob tudalen i ofalwyr ar y wefan, eu hadolygu i wella'r mynediad iddynt, a'u defnyddioldeb
- Gweithio ledled y rhanbarth i adolygu'r wybodaeth i ofalwyr ifanc a sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael iddynt yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hygyrch


Cysylltu Gofalwyr Connecting Carers CEREDIGION

# Sut mae Gofalwyr yn llywio ein gwasanaeth?

## Derbyniwyd 430 darn unigol o adborth ynghylch...

- Y Gronfa Gofalwyr
- Darparu gwybodaeth
- Pecynnau Lles
- Sesiynau dysgu/hyfforddiant
- Fforwm Gofalwyr
- Cerdyn Gofalwr (ymgynghorwyd â gofalwyr)
- Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc (ymgynghorwyd â gofalwyr ifanc)
- Cylchgrawn y Gofalwyr
- Te Prynhawn Cymreig: 'Seibiant mewn Bocs'
- Digwyddiadau a gweithgareddau

## Sut defnyddiwyd ar adborth




## Enghraifft

**Dywedodd gofalwr...**


Mae angen rhywbeth ffurfiol arnaf i brofi fy mod yn gofalu am rywun

**Beth wnaethom ni?**

Datblygu a lansio Cerdyn Adnabod Gofalwr yng Ngheredigion y gall gofalwyr ei ddefnyddio i brofi eu rôl ofalu

# Uned Gofalwyr: gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i wella a datblygu cefnogaeth i ofalwyr wrth wraidd yr hyn rydym yn gwneud. Dyma gipolwg ar rai partneriaid rydyn ni wedi gweithio gyda nhw yn ystod y flwyddyn.




**Allwedd**

- Cyngor Sir Ceredigion
- Lleol
- Rhanbarthol
- Cenedlaethol

# Cipolwg ar Flwyddyn yr Uned Gofalwyr

## Chwarter 1

**EBRILL**

**GWASANAETH GWIRIO LLES GOFALWYR**

**COVID-19**

**ADDASU I GYFNOD CLO**

**CYLCHLYTHYR COVID-19 Y GOFALWYR**

**AROLWG CERDYN GOFALWR**
**ymatebodd 208 gofalwr**

**DIGWYDDIAD RHITHWIR**

*WYTHNOS GOFALWYR*

- Prosiect Cwilt
- Iechyd a Lles
- Tai Chi
- Celf a chrefft
- Myfyrio
- “CODI CWPANAID” i ofalwyr a chwis gyda myfyrwyr Coleg Ceredigion

Wythnos Gofalwyr

**TRYSORFA WYBODAETH CYNTAF**


**DANFON 850 PECYN LLES I OFALWYR:**

- Llyfr Llesiant
- Siocled
- Te i godi ysbryd
- Aromatherapi
- Ymwybyddiaeth Ofalgar

## Chwarter 2

**GORFFENNAF**

Cwblhau PROSIECT CWILT, Wythnos Gofalwyr, Gofalwyr Ceredigion Carers



**TRYSORFA WYBODAETH**

**AROLWG CERDYN ADNABOD GOFALWYR IFANC**

- I ddewis dyluniadau terfynol y cerdyn

GOFALWR IFANC YOUNG CARER




**CYLCHGRAWN Y GOFALWYR**

Lansio hyfforddiant ‘ASESU ANGHENION GOFALWYR’ i staff gofal cymdeithasol

**CYFARFOD FFORWM GOFALWYR**

**CYFARFOD RHITHWIR**

**TRYSORFA WYBODAETH**

Cysylltu Gofalwyr Connecting Carers CEREDIGION

## Chwarter 3




CYLCHGRAWN Y GOFALWYR

RHIFYN ARBENNIG AR DDIWRNOD HAWLIAU GOFALWYR

DIWRNOD HAWLIAU gofalwyr

DIGWYDDIAD RHITHWIR

Hawliau Gofalwyr a chefnogaeth

CYFARFOD RHITHWIR

CYFARFOD FFORWM GOFALWYR

Sesiynau Hyfforddiant Gwybodaeth i Ofalwyr

- Hawliau Gofalwyr
- Cyngor ar gartrefi cynnes a defnyddio ynni
- Cadw'n ddiogel ar-lein

### HYDREF

NEWYDD

Lansio CERDYN GOFALWYR CEREDIGION

Lansio CERDYN ADNABOD GOFALWR IFANC

DIGWYDDIAD YMGYNGHORI X 3
Cynllun Cenedlaethol i Ofalwyr

SESIWN GALW HEIBIO CYNTAF I STAFF

Lansio CRONFA GOFALWYR Ceredigion o £36,500

TRYSORFA WYBODAETH

## Chwarter 4



SESIWN FLASU Gwella Cydnerthedd a Lles Gofalwyr

CYFARFOD RHITHWIR

CYFARFOD FFORWM GOFALWYR

CYLCHLYTHYR GOFALWYR IFANC GYNTAF

**DIWRNOD GWEITHREDU GOFALWYR IFANC**
**16 MAWRTH 2021**




CYLCHGRAWN Y GOFALWYR

### IONAWR

Sesiynau Hyfforddiant Gwybodaeth i Ofalwyr

- Hawliau rhiant-ofalwyr
- Hunan eiriolaeth i ofalwyr
- 'Rhoi'r Bai ar yr Ymennydd'
- Grantiau a chyngor ar wresogi ynni

TRYSORFA WYBODAETH

DIGWYDDIAD YMGYNGHORI x2
Strategaeth Heneiddio'n Dda



Hyfforddiant i Hwyluswyr Cydnerthedd a Lles Gofalwyr
CWRS 3 DIWRNOD

Dosbarthu 1040 Te Prynhawn Cymreig 'seibiant mewn bocs' i ofalwyr

### EBRILL

# Ffocws ar...

## Te Prynhawn Cymreig: 'seibiant mewn bocs'




**Danfon bocsys i 1040 gofalwr**



**Roedd y pecyn yn cynnwys amryw ddanteithion, cacennau a the i ddau eu rhannu**

### Dywedodd y Gofalwyr...

"Am syrpreis hyfryd oedd derbyn eich pecyn gwanwyn i ofalwyr. Diolch am eich cefnogaeth ac am neilltuo amser i ofalu am y gofalwyr.

Mae'n waith caled ar y gorau ac yn fwy anodd fyth, wrth gwrs, yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae eich rhodd ystyriol yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr ac yn sicr, gwneir defnydd da ohoni."

"Diolch yn fawr iawn am anfon y detholiad blasus o ddanteithion ataf. Y peth gorau a ddigwyddodd i mi ers amser. Mor ystyriol ohonoch."

"Diolch yn fawr iawn am y bocs seibiant i ofalwyr a dderbyniais y bore 'ma. Mae'n golygu llawer i mi eich bod yno os, a phan, y bydd eich angen arna i."

"Cododd fy nghalon yn fawr."

"Diolch am feddwl amdanom ni'r gofalwyr. Nid yw'n adeg rhwydd i unrhyw un ond daeth hwn â dagrau i'm llygaid"

"O'n i am ddweud diolch anferthol i chi. Ar ôl bore anodd gyda fy nhad, cyrhaeddais gartref i'r bocs seibiant i ofalwyr hyfryta'n y byd. Y pethau bychain mewn bywyd sy'n goleuo eich diwrnod, felly diolch"

Cysylltu Gofalwyr Connecting Carers CEREDIGION

# Ffocws ar...


## Cronfa Gofalwyr Ceredigion

Gofalwyr yn ymgeisio am hyd at £150 i wella eu hiechyd a'u lles

**Dyfarnu £36,500**









**Prosesu 247 cais**

### Dywedodd y Gofalwyr...

"Diolch yn fawr iawn am bob help a chymorth a roesoch. Rwy' wir yn gwerthfawrogi'r help a'r gefnogaeth a roddwyd i mi.
Mae'n gwneud gwahaniaeth yn ariannol ac mae hefyd yn dda gwybod bod yr awdurdod lleol yn sylwi ac yn gwerthfawrogi. Diolch eto"

"Diolch eto am yr holl gefnogaeth a roddwyd gennych. Bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i lesiant ein teulu."

"Diolch, diolch gymaint. Mae'r iPad yn anhygoel ac rwy' mor ddiolchgar i chi. Mae'n golygu cymaint fy mod yn gallu cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Diolch yn fawr iawn"

"Diolch yn fawr iawn. Dydw i erioed wedi teimlo mor hapus nawr fy mod yn gallu cael fy mheiriant crefft torri."

"Diolch gymaint am roi'r arian i mi newid rhai o'm offer cegin. Mae wedi gwneud bywyd gymaint yn haws!"

"Diolch o galon. Rwy'n hynod ddiolchgar a chyffrous i gael fy noson i ffwrdd. Rhowch fy niolch didwyll i bawb a oedd yn rhan o hyn. Rwy' wir yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael ychydig o amser allan."

# Ffocws ar...

## Digwyddiadau a gweithgareddau Gofalwyr

### Beth wnaeth y gweithgareddau?

- Gwella lles
- Hybu hwyliau
- Helpu i ymlacio
- Dod â hwyl a phleser
- Hysbysu, cynghori a chefnogi
- Cysylltu gofalwyr

**82 o weithgareddau neu sesiynau**








**O leiaf 361 o bobl yn dod yno neu'n ymgysylltu**

**12,000**
o bobl yn edrych ar 4 fideo a rannwyd yn ystod Wythnos Gofalwyr

Roedd **25%** o'r gofalwyr a ddaeth i'r digwyddiad ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr yn newydd i'r gefnogaeth i ofalwyr gan yr Uned Gofalwyr

*Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc*



*Danfon pecynnau lles i 100 gofalwr ifanc*

### Dywedodd y Gofalwyr...

"Roedd yn llawer o hwyl ... Cododd fy nghalon yn fawr yn ystod cyfnod y pandemig." Gofalwr ifanc

"Diolch yn fawr am y sesiwn heddiw; gwerthfawr iawn a llawn gwybodaeth." (Sgwrs am hawliau Gofalwyr)

"Diolch i'r rhieni hynny a rannodd, roedd clywed eich profiadau yn werthfawr iawn." (Sgwrs am ddatblygiad ymennydd y glasoed)

*Bu'r gweithgareddau a'r digwyddiadau digidol a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Gofalwyr yn fodd o symbylu gofalwyr i ddysgu sgiliau TG newydd.*

"Llongyfarchiadau ar gynhyrchu ystod gystal o weithgareddau i ddathlu dan amgylchiadau mor anodd. Rwy'n gobeithio bod nifer fawr iawn o ofalwyr wedi gallu cael mynediad iddyn nhw - rydw i, hyd yn oed, wedi dysgu defnyddio Facebook a Zoom! Diolch."

# Crynodeb - beth ddylwn ni ei wneud nesaf?

O edrych yn ôl ar eleni, rydym yn hynod o falch o'r modd y mae'r Uned Gofalwyr, gan weithio gyda'n partneriaid yn y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector, i gyd wedi cydweithio i sicrhau bod gofalwyr Ceredigion yn cael eu cefnogi drwy rai adegau tywyll, dychrynllyd ac anodd iawn eleni. Rydym wedi dysgu ffyrdd newydd o weithio, wedi bod yn arloesol a chreadigol yn y modd yr ydym wedi mynd i'r afael â'n dyletswyddau ac, fel y gofalwyr yr ydym yn gweithio gyda nhw, wedi dyfalbarhau gydol y pandemig a'r 3 chyfnod clo.

Mae'r adroddiad yn dangos yr hyn a gyflawnwyd gennym hyd yma ond, fel arfer, mae angen i ni edrych ymlaen i weld sut y gallwn ddatblygu ein gwaith ymhellach, gan ystyried yr hyn a ddysgwyd gennym a sicrhau bod gofalwyr Ceredigion yn cael y gefnogaeth, y wybodaeth a'r cymorth gorau posibl i'w galluog i barhau yn eu rôl ofalu.

Ar gyfer 2021-22 bydd angen i ni gofleidio'r strwythur gydol oed a llesiant newydd gan sicrhau bod yr Uned Gofalwyr yn parhau i roi gwasanaeth o safon uchel i ofalwyr di-dâl ac i'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw. Bydd angen i ni ystyried agor unrhyw wasanaeth er mwyn galluogi digwyddiadau a gweithgareddau wyneb yn wyneb ar gyfer y rhai na all ymgysylltu â'r byd rhithiol neu sy'n ei chael yn anodd gwneud hynny. Byddwn yn asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd wedi'i gynllunio i sicrhau diogelwch y gofalwr, y sawl y gofelir amdano, y staff a'r cymunedau ehangach ledled Ceredigion. Yr her fydd dod o hyd i'r cydbwysedd iawn i annog a galluogi gofalwyr i fagu hyder i fynd at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt tra'n parhau'n wyliadwrus ac ymatebol i unrhyw sefyllfa sy'n newid. Rydym yn rhagweld y bydd ein gwasanaethau, wrth symud ymlaen, yn gyfuniad o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb a rhithiol, ac y bydd gweithgareddau grŵp yn cael eu cadw i'r isafswm ac o fewn canllawiau llym Covid-19.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid rhanbarthol ar weithredu'r Strategaeth Gofalwyr yng Ngheredigion, y rhanbarth a ledled Cymru ac yn cyfrannu at y cynllun cenedlaethol i ofalwyr i sicrhau bod llais gofalwyr Ceredigion yn cael ei glywed yn glir.

Edrychwn ymlaen at wynebu'r heriau a ddaw yn 2021-22 gan wybod bod gennym sylfeini cadarn i adeiladu arnynt yn barhaus o ran y gwasanaethau a gynigir gennym.

# Amcanion y Cynllun Busnes - 2021/22

**Amcan Busnes 1**

Dynodi ac adnabod gofalwyr gan roi gwybodaeth, cyngor a chymorth iddynt

**Amcan Busnes 2**

Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu er mwyn galluogi gofalwyr i gynnal eu capasiti i ofalu a chael bywyd y tu hwnt i ofalu

**Amcan Busnes 3**

Cefnogi gofalwyr mewn addysg ac yn y gweithle gan alluogi gofalwyr i weithio a dysgu ochr yn ochr â'u rôl ofalu

## Uned Gofalwyr
## Cyngor Sir Ceredigion

01970 633564

unedgofalwyr@ceredigion.gov.uk

Eitem Agenda 5

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach |
| **DYDDIAD:** | 20 Hydref 2021 |
| **LLEOLIAD:** | MS Teams |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cynhyrchwyd yr adroddiad gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru i amlinellu'r cynnydd a gyflawnwyd i fodloni blaenoriaethau Gofalwyr Llywodraeth Cymru gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Er gwybodaeth yn unig |

**CEFNDIR:**

Ym mis Ebrill 2017, cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru i gynnwys Gofalwyr fel ffrwd waith allweddol, gan adlewyrchu pwysigrwydd y grŵp poblogaeth hwn o fewn cyfrifoldebau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgarwch Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn ystod y cyfnod 1af Ebrill 2020– 31ain Mawrth 2021. Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn is-grŵp ffurfiol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Bwrdd Iechyd), tri Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, yn ogystal â sefydliadau'r Trydydd sector a'r sector Gwirfoddol, a chynrychiolwyr Gofalwyr yng Ngorllewin Cymru.

<u>Adroddiad Blynyddol Gofalwyr 2019/20</u>

Mae 2019/20 yn adlewyrchu cyfnod pontio Llywodraeth Cymru rhwng Mesur Strategaethau Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr (Cymru) 2010 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn eu llythyr cyllideb yn dwyn dyddiad 14eg Mawrth 2018 nododd Llywodraeth Cymru eu disgwyliad y bydd iechyd, awdurdodau lleol a’r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi gofalwyr o dan y Ddeddf trwy:

- Gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu - darparu cyfleoedd i ofalwyr gael seibiannau rhesymol o'u rôl ofalu i'w galluogi i gynnal eu gallu i ofalu, a chael bywyd y tu hwnt i ofalu.
- Nodi a chydnabod gofalwyr - gwella cydnabyddiaeth Gofalwyr o'u rôl a sicrhau eu bod

yn gallu gafael ar y gefnogaeth gywir.
- Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth - rhoi cyngor priodol lle a phryd y mae ei angen ar Ofalwyr.

**DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014**

Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru wedi derbyn yr adroddiad ac yn unol â chyfarwyddeb adrodd Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd y ddogfen a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac fe'i derbyniwyd.

**SEFYLLFA AR HYN O BRYD: Fel uchod**

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau?**
**Os nad oes, dywedwch pam**

***Crynodeb:***

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Cydbwyso angen tymor byr ag angen hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol |
| **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant a cheisio bod o fudd i'r tri |
| **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni |
| **Cynnwys:** | Cynnwys y rheini sydd â diddordeb a gofyn am eu barn |
| **Atal:** | Rhoi adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu |

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**
I rannu gwybodaeth ac i dderbyn sylwadau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach / Cabinet.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Sara Humphreys |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Dros Dro Gofalwyr, Uned Gofalwyr Ceredigion |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 15/09/2021 |

**Acronymau:**

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

# GORLLEWIN CYMRU IACHACH:

## Grŵp Datblygu
## Gofalwyr Gorllewin Cymru

## Adroddiad Blynyddol

## 2020-21



## Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgarwch Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru (GDGGC) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021. Mae GDGGC yn un o is-grwpiau ffurfiol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Gorllewin Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd), y tri awdurdod lleol, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, yn ogystal â mudiadau'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol, a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yng ngorllewin Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o'r gwaith a wnaed gan ddefnyddio'r cyllid gofalwyr a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i fyrddau iechyd, y Gronfa Gofal Integredig a chyllid craidd gan sefydliadau partner i sicrhau bod blaenoriaethau gofalwyr wedi'u hymwreiddio mewn gwasanaethau ar draws y rhanbarth, yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei disgwyliad y bydd awdurdodau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi gofalwyr o dan y Ddeddf, drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu – cynnig cyfleoedd i ofalwyr gael seibiannau rhesymol o'u rôl ofalu i'w galluogi i gynnal eu gallu i ofalu a chael bywyd y tu hwnt i ofalu.
- Nodi a chydnabod gofalwyr – gwella cydnabyddiaeth gan ofalwyr o'u rôl a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y cymorth iawn.
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth – darparu cyngor priodol pan mae ar ofalwyr ei angen a lle mae arnynt ei angen.

Mae ymateb i'r gofynion uchod yn ffurfio sail Adroddiad Blynyddol Gofalwyr 2020/21, sy'n rhoi tystiolaeth o gynnydd mewn perthynas â phob un o'r meysydd hyn a'r budd a gafwyd gan ofalwyr.

## Anghenion Gofalwyr yng Ngorllewin Cymru

Cyhoeddodd BPRh Gorllewin Cymru ei asesiad poblogaeth cyntaf ar gyfer gorllewin Cymru ym mis Ebrill 2017, ac wedi hyn datblygodd Gynllun Ardal Gorllewin Cymru 2018-2023. Casglwyd cryn dipyn o wybodaeth am anghenion y boblogaeth drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion. Ychwanegwyd at hyn gan y data a'r adborth gan ddinasyddion a gasglwyd yn ystod ein gwaith diweddar i ddatblygu strategaeth gofalwyr ranbarthol ar gyfer gorllewin Cymru.

Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod mwy na 370,000 o ofalwyr di-dâl o bob oedran yng Nghymru ac mae arbenigwyr wedi cyfrifo bod gofalwyr yng Nghymru wedi cyfrannu'r hyn sy'n cyfateb i ryw £8.1 biliwn at economi Cymru bob blwyddyn. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gofalu am gyn lleied ag awr yr wythnos. Ni fydd angen unrhyw gymorth ychwanegol ar y rhan fwyaf o bobl sy'n treulio ychydig iawn o

amser yn gofalu. Fodd bynnag, mae gan Gymru hefyd y gyfran uchaf o ofalwyr hŷn a gofalwyr sy’n darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos.

Ym mhoblogaeth gorllewin Cymru o 348,000, dangosodd Cyfrifiad 2011 fod oddeutu 47,000 o ofalwyr ond rydym yn gwybod bod hyn yn debygol o fod yn uwch o lawer o ystyried nad yw pobl bob amser yn cydnabod eu bod yn ofalwyr. Yn flaenorol, roedd oddeutu 9,000 o ofalwyr sy’n oedolion a dros 400 o ofalwyr ifanc wedi’u nodi drwy feddygfeydd, gwasanaethau cymdeithasol a lleoliadau addysg yng ngorllewin Cymru. Yn sgil y pandemig Covid-19, gwelwyd cynnydd yn nifer y gofalwyr di-dâl sy’n nodi eu bod yn ofalwyr a dangosodd adroddiad Arolwg Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2020 gynnydd o 35% yn nifer yr unigolion a ddywedodd eu bod yn gofalu am aelodau o’r teulu, ffrindiau a chymdogion, neu’n rhoi cymorth a chefnogaeth iddynt.

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhagweithiol wrth gefnogi gofalwyr di-dâl gyda mynediad at brofion Covid ac, yn fwy diweddar, cefnogi’r broses o nodi gofalwyr di-dâl fel rhan o’u cymhwysedd i gael brechiad Covid. Mae hyn wedi arwain at dros 2,600 o ofalwyr di-dâl yn rhoi gwybod i’r Bwrdd Iechyd eu bod yn ofalwyr ond nad oeddent wedi cofrestru fel gofalwyr gyda’u meddygfa yn flaenorol. Fel rhan o weithredu’r Bwrdd Iechyd i wneud i bob cyswllt gyfrif, rhoddodd Tîm Gofalwyr y Bwrdd Iechyd wybodaeth ddilynol i bob gofalwr sydd newydd ei nodi, gan gynnwys gwybodaeth am wasanaethau cymorth i ofalwyr gan y trydydd sector a’r cyrsiau Cyflwyniad i Ofalu Amdanaf i a ddarperir gan y Rhaglen Addysg i Gleifion.

Mae’r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr ar draws gorllewin Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau am gymorth. Yn Sir Gaerfyrddin, adroddodd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr - Croesffyrdd Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ystod 2020/21, fod nifer y gofalwyr wedi cynyddu 31%, o 4,613 i 6,071. Gwelodd Hafal Croesffyrdd, sy’n darparu gwybodaeth a chymorth yn Sir Benfro, nifer y gofalwyr a gofrestrwyd yn cynyddu o 2,570 i 2,918 a gwelodd Uned Gofalwyr Ceredigion gynnydd o 267 o ofalwyr, gan gynyddu o 825 i 1,092 o ofalwyr.

Yng ngorllewin Cymru, mae’r awdurdodau lleol a mudiadau’r trydydd sector wedi ymateb yn dda iawn i’r pandemig Covid-19, gan addasu eu gwasanaethau yn gyflym ac, mewn rhai achosion, symud eu gweithgareddau ar-lein. Er enghraifft, symudodd grŵp gofalwyr Trefdraeth yn Sir Benfro o gyfarfod wyneb yn wyneb i gyfarfod ar Zoom gyda chefnogaeth gan Gysylltydd Cymunedol. O ganlyniad, roedd y grŵp gofalwyr yn fwy hygyrch i ofalwyr ledled y sir, gan ddenu gofalwyr newydd a oedd yn chwilio am gefnogaeth gan gymheiriaid ar-lein. Enghraifft arall yw Uned Gofalwyr Ceredigion a ddarparodd raglen lawn o weithdai, hyfforddiant a thrafodaethau ynghylch hawliau gofalwyr yn ystod chwe mis olaf 2020-21. Roedd hyn yn dilyn yr hyfforddiant a’r gweithgareddau ar-lein llwyddiannus a ddarparwyd ar gyfer Wythnos Gofalwyr, pan gymerodd 147 o ofalwyr ran mewn 20 o gyrsiau hyfforddiant.

Mae’r holl wasanaethau i ofalwyr ifanc wedi parhau i weithredu ac addasu eu ffyrdd o weithio, gan ddefnyddio Zoom, WhatsApp a Microsoft Teams. Cynhaliwyd cyswllt rheolaidd â gofalwyr ifanc a’u teuluoedd i fynd i’r afael â materion. Er bod y rhan fwyaf o gysylltiadau wedi bod yn rhithwir, cynhaliwyd teithiau cerdded gan gadw pellter cymdeithasol ac ymweliadau cartref lle’r oedd y canllawiau cenedlaethol yn caniatáu hynny. Cynhaliwyd sesiynau grŵp ar-lein ond nid oes llawer o bobl wedi manteisio arnynt, ac mae’r bobl ifanc wedi dweud y byddai’n well ganddynt gyfarfod

wyneb yn wyneb. Mae’r holl wasanaethau wedi sylwi ar ddirywiad yn iechyd meddwl pobl ifanc a rhieni dros y flwyddyn ac mae’r gwasanaethau wedi ymateb drwy gynnig cymorth priodol.


## Datblygiadau Allweddol a Chynnydd – 2020/21




**Ein Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025: Gwella Bywydau Gofalwyr**

Yn ystod 2020/21, cafwyd cryn dipyn o ymgysylltu â gofalwyr, i ddechrau drwy drafodaethau gweithdy rhanbarthol ac mewn awdurdodau lleol, ac yna symudwyd i ddatblygu arolwg ar-lein mewn ymateb i'r pandemig. Ymatebodd 558 o ofalwyr i'n harolwg ar-lein, gan gynnwys 18% a oedd yn ofalwyr ifanc o dan 18 oed.

Cyhoeddodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru Ein Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025: Gwella Bywydau Gofalwyr ym mis Tachwedd 2020. Mae'r strategaeth wedi sefydlu pedwar maes blaenoriaeth allweddol sy'n edrych ar y tymor hwy ac yn nodi'r weledigaeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Drwy gydol ein strategaeth gofalwyr, rydym wedi defnyddio aelodau'r 'Teulu Jones' i'n helpu i feddwl am sut y gallai ein blaenoriaethau wneud gwahaniaeth i ofalwyr yn ein cymunedau. Nid teulu go iawn yw'r 'Teulu Jones' ond crëwyd y teulu i fod yn nodweddiadol o rai o'r bobl sy'n byw yn ardal Hywel Dda a'r mathau o rolau gofalu mewn teuluoedd.




Mae'r rhannau canlynol o'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ffyrdd rydym wedi bod yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn a'r gwahaniaeth y maent wedi'i wneud i'r rheiny sydd â chyfrifoldebau gofalu.

## Dan sylw - Cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr (BmG)

Ar ran Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi parhau i gyflwyno'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr rhanbarthol. Yn ogystal â chyllido Swyddog Arweiniol Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu cymorth rhanbarthol i'r cynllun BmG sy'n cael ei ddarparu drwy'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr – Croesffyrdd Gorllewin Cymru. Mae BmG yn darparu'r sail ar gyfer gwaith gyda gweithwyr iechyd proffesiynol mewn lleoliadau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai acíwt i godi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr. Fodd bynnag, yn wahanol i rai meysydd eraill, mae BmG wedi'i gynllunio i gael ei ddefnyddio gan ystod eang o leoliadau, gan gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, timau awdurdodau lleol, y Ganolfan Byd Gwaith a mudiadau'r trydydd sector.

Mae'r cynllun BmG bellach yn galluogi lleoliadau i symud drwy dair lefel, sef efydd, arian ac aur, ac yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd o ran sefydlu proses gyflwyno ar-lein ar gyfer tystiolaeth BmG.  Un o elfennau craidd y cynllun BmG yw darparu system syml sy'n galluogi gofalwyr di-dâl i gofrestru fel gofalwr gyda'u meddyg teulu, sydd yn ei dro yn achosi atgyfeiriad at eu gwasanaeth gwybodaeth i ofalwyr lleol sy'n gallu darparu gwybodaeth a chymorth ychwanegol.

### Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2020/21

- Enillodd **12** o leoliadau wobr Buddsoddwyr mewn Gofalwyr newydd (enillodd **9** wobr lefel Efydd, enillodd **2** wobr lefel Arian ac enillodd **1** wobr lefel Aur). Hefyd, cafodd **4** o leoliadau ailddilysiad Efydd.
- Mae **44** o leoliadau eraill wrthi'n gweithio tuag at eu lefel Efydd, mae **6** o leoliadau yn gweithio tuag at eu lefel Arian ac mae **2** leoliad yn gweithio tuag at eu lefel Aur. Ers mis Mawrth 2013, mae cyfanswm o 95 o leoliadau wedi ennill eu gwobrau BmG Efydd, mae 8 wedi ennill eu gwobrau Arian ac mae 3 wedi ennill eu gwobrau Aur.
- Bu'n rhaid i rai lleoliadau ailflaenoriaethu oherwydd y pandemig, fodd bynnag, rhoddir cymorth i **87** o leoliadau mewn ffyrdd gwahanol i barhau i weithio tuag at achrediad neu i gynnal eu lefel bresennol.
- Mae **2,309** o ofalwyr wedi cofrestru gyda meddygfeydd ar draws ardal y Bwrdd Iechyd (sy'n dod â chyfanswm nifer y gofalwyr sydd wedi'u cofrestru gyda meddygfeydd i **10,792**).
- Atgyfeiriwyd **1,087** o ofalwyr at y gwasanaeth gwybodaeth i ofalwyr drwy'r broses cofrestru ac atgyfeirio drwy feddygfa (sy'n dod â chyfanswm nifer yr atgyfeiriadau gan feddygfeydd i **5,582**).
- Bu cynnydd yn nifer y gofalwyr sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu yn ystod mis Mawrth 2021 o ganlyniad i ymgyrch gan y Bwrdd Iechyd i nodi gofalwyr di-dâl i gael brechiad.  Yn ogystal, nodwyd dros **2,600** o ofalwyr di-dâl yn ystod y cyfnod  Ebrill - Mai 2021 nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau uchod.




**Croesffyrdd Sir Gâr** yn derbyn ei dystysgrif a'i blac lefel Aur mewn cyflwyniad gan gadw pellter cymdeithasol.




**Coleg Sir Benfro** oedd y cyntaf i gyflwyno ei dystiolaeth lefel Efydd yn electronig.

**Digwyddiadau Arweinwyr Gofalwyr**

Mae gan yr holl sefydliadau, timau ac adrannau sy'n cymryd rhan yn y cynllun BmG Arweinydd Gofalwyr a nodwyd. Mae digwyddiadau rheolaidd i Arweinwyr Gofalwyr wedi'u darparu drwy gydol y flwyddyn er mwyn dod â gwahanol leoliadau at ei gilydd, gan gynnig cyfle ar gyfer cefnogaeth gan gymheiriaid, dysgu ar y cyd a diweddariadau ynghylch mentrau lleol newydd. Ym mis Tachwedd 2020, er mwyn cefnogi diwrnod hawliau gofalwyr, darparwyd tair sesiwn drwy MS Teams i 32 o Arweinwyr Gofalwyr.

Ers mis Ionawr 2021, cynhaliwyd saith digwyddiad arall ac roedd cyfanswm o 84 o bobl o'r tair sir yn bresennol.




Roedd yr adborth gan y cyfranogwyr yn cynnwys:
*'Roeddwn i wedi ei fwynhau'n fawr ac rwy'n edrych ymlaen at gael ein gwobr Efydd ac yna symud ymlaen i'n gwobr Arian.'*

*"Mae cael sgyrsiau ar-lein y prynhawn yma wedi gwneud imi feddwl am ba dystiolaeth sydd ei hangen arnaf ar gyfer fy ffolder, beth mae angen imi ei wneud ar gyfer ein gofalwyr, beth mae angen imi ei wneud ar gyfer ein staff, ac mae'n codi hynny eto yn y rhestr o flaenoriaethau."*

## Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr

1. Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

2. Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.

"A dweud y gwir, dydw i erioed wedi meddwl amdanaf fy hun fel gofalwr. Wedi'r cyfan, fy rhieni ydyn nhw a gofalu amdanynt wrth iddynt heneiddio yw'r hyn rwy'n ei wneud. Dechreuais siarad ag aelod o staff yn fy llyfrgell leol am fy mam ac roeddent wedi gwneud imi sylweddoli fy mod i mewn gwirionedd yn ofalwr. Cefais lawer o wybodaeth ganddynt am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael."





## Dan sylw – cysylltiadau â gwasanaethau statudol a gwasanaethau a gomisiynwyd

Yng Ngheredigion, mae Uned Gofalwyr y cyngor sir yn darparu'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr ac mae'n cydweithio'n agos ag adrannau eraill yn y cyngor, yn benodol gofal cymdeithasol. Yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd rhai gofalwyr yn cael anhawster siopa am eitemau hanfodol. Mewn ymateb i hyn, datblygodd Uned Gofalwyr Ceredigion Gerdyn Gofalwyr i Oedolion a oedd yn cael ei gydnabod gan yr holl archfarchnadoedd mawr wrth gynnig blaenoriaeth o ran slotiau siopa a danfon. Bellach, mae gwaith yn mynd rhagddo i roi hyn ar waith yn rhanbarthol.

Er yr anawsterau a gafwyd yn sgil gweithio gartref yn ystod y pandemig, mae'r cysylltiadau â darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd wedi'u cryfhau drwy fynychu cyfarfodydd ein gilydd, drwy ddulliau ar-lein. Ar ddechrau'r pandemig, bu'r awdurdod lleol a gwasanaethau a gomisiynwyd yn cydweithio i sicrhau y cynigiwyd galwadau llesiant i'r holl ofalwyr yr oedd yr awdurdod lleol yn gwybod amdanynt. Hefyd, dosbarthwyd dros 800 o fagiau llesiant i ofalwyr yn ystod Wythnos Gofalwyr fel rhan o bartneriaeth rhwng gyrwyr fan lyfrgell yr awdurdod lleol, staff hamdden a gwasanaethau a gomisiynwyd.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r grŵp llywio Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion heb eu diwallu. Llwyddwyd i sefydlu rhaglen grantiau gofalwyr ifanc a chafodd 68 o ofalwyr ifanc gymorth drwy'r cynllun hwn. Gwnaed ceisiadau am grantiau at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys: talebau bwyd; gliniaduron; tabledi; beiciau; setiau teledu; gwe-gamerâu; celfi ystafell wely; offer synhwyraidd, ac ati. Cafodd gofalwyr yn Sir Gaerfyrddin gymorth i gael cyllid i alluogi dulliau amgen o gael seibiant o'u rôl ofalu. Roedd yr hyblygrwydd hwn yn rhoi dewis i bobl a chyfle i fod yn greadigol i ymateb i'w hamgylchiadau unigol.


### Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr

1. Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.


2. Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.

3. Support Carers to access and maintain education, training and employment opportunities.

Mae un gofalwr ifanc 12-18 oed yn treulio 21-35 awr yr wythnos yn gofalu am riant sydd â nifer o anableddau a salwch meddwl. Cymeradwywyd grant o £225.97 i brynu bwrdd ymbincio ac argraffydd.



"Mae'r argraffydd wedi helpu fy merch mewn nifer o ffyrdd. Gall wneud gwaith ysgol ac argraffu celf. Gall ymchwilio i dechnegau coluro newydd a thechnegau lluniau a ffilmiau. Mae hi'n dwlu ar y bwrdd ymbincio newydd ac mae'n ei ddefnyddio i ymarfer coluro gan ei bod hi am fod yn artist colur. Mae'r eitemau hyn yn bendant wedi codi ei hysbryd ac maent o gymorth mawr. Diolch."



# Dan sylw – cynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo wedi mabwysiadu dull system gyfan o ran cefnogi a chynnwys gofalwyr wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion a sicrhau darpariaeth weithredol gwybodaeth, cyngor a chymorth.  Mae Swyddogion Gofalwyr (sy'n weithwyr y trydydd sector) wedi'u lleoli ym mhob ysbyty ers mis Ionawr 2020 i gefnogi gofalwyr a staff.  Mae gan y Swyddogion Gofalwyr rôl benodol o ran cefnogi staff i nodi gofalwyr yn gynnar, galluogi mwy o gyfraniad at y broses cynllunio ar gyfer rhyddhau a sicrhau darpariaeth weithredol gwybodaeth a chymorth.  Maent hefyd yn cydweithio'n agos â'r Swyddogion Cyswllt â Theuluoedd ym mhob ysbyty sy'n atgyfeirio cleifion a'u teuluoedd at y Swyddogion Gofalwyr. Pan oedd mynediad i'r ysbytai wedi'i gyfyngu yn ystod y pandemig, rhoddwyd hyfforddiant a chymorth o bell, gan fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol.  Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r hyfforddiant e-ddysgu Ymwybodol o Ofalwyr.

Lansiwyd yr hyfforddiant e-ddysgu Ymwybodol o Ofalwyr ym mis Tachwedd 2018 gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae wedi'i raeadru i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau statudol ac anstatudol mewn nifer o wahanol ffyrdd. Yn ystod 2020/21, roedd 164 o staff yn Hywel Dda wedi cwblhau'r e-ddysgu, ynghyd ag 80 o gydweithwyr yng Nghyngor Sir Ceredigion.

## Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2020/21

Roedd y Swyddogion Gofalwyr wedi gwneud y canlynol:


- Cefnogi **303** o ofalwyr fel rhan o'r broses cynllunio ar gyfer rhyddhau eu haelod o'r teulu
- Ymateb i **199** o ymholiadau gan staff mewn wardiau a chynnal **270** o ymweliadau â wardiau
- Dosbarthu **481** o becynnau gwybodaeth i ysbytai a **118** o becynnau gwybodaeth i ofalwyr
- Darparu **105** o sesiynau ymwybyddiaeth Gwerthfawrogi Gofalwyr i **587** o staff

## Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr

1. Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

2. Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.

Roedd y cymorth a roddwyd gan y Swyddog Gofalwyr pan oedd fy mam yn yr ysbyty wedi helpu fy llesiant meddyliol ac emosiynol ar adeg ansicr a phrysur iawn."





# Dan sylw – cefnogi gofalwyr ifanc

## Cydnabod Gofalwyr Ifanc

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i lansio'r Cerdyn Gofalwyr Ifanc a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid ledled gorllewin Cymru i rannu dysgu a chynnig cymorth i alluogi siroedd cyfagos i ddatblygu cerdyn a fydd yn cyd-fynd ag ef ac yn creu rhywfaint o gysondeb i ofalwyr ifanc. Mae cerdyn adnabod rhanbarthol yn cael ei ystyried hefyd.

Fel rhan o ddiwrnod gweithredu gofalwyr ifanc, lansiodd Ceredigion ei llythyr newyddion cyntaf i oedolion ifanc a ddosbarthwyd i'r gofalwyr ifanc hynny sydd wedi'u cofrestru gyda'r gwasanaeth gwybodaeth, yn ogystal â'r rheiny sy'n cael cymorth gan Gweithredu dros Blant, sef y gwasanaeth a gomisiynwyd i ofalwyr ifanc yng Ngheredigion.

Ni allai'r pecyn cymorth llesiant fod wedi dod ar adeg well i fy mab, Ben. Roedd yn dwlu arno. Diolch."



## Cefnogi Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc

Roedd y Bwrdd Iechyd wedi ariannu Croesffyrdd Sir Gâr i ddarparu mwy o gymorth i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. Dyma'r tro cyntaf roedd sesiynau wedi'u darparu i ystod oedran eang, sef o 5 i 25 oed. Roedd cyfanswm o 123 o fynychwyr wedi cymryd rhan. Roedd y sesiynau yn boblogaidd dros ben ac roeddent wedi cynnwys gofalwyr nad oeddent yn mynychu sesiynau Zoom o'r blaen.

Mae Gweithredu dros Blant, gyda chymorth gan y Bwrdd Iechyd, wedi datblygu pecyn cymorth llesiant ar gyfer yr holl ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yng Ngheredigion a Sir Benfro. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i'w helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi eu llesiant eu hunain. Mae'r blwch yn cynnwys pecyn o gardiau sy'n dangos gwahanol weithgareddau llonyddol i'w gwneud, yn ogystal â gwefannau defnyddiol a manylion cyswllt ar gyfer cymorth ychwanegol.

Yn Sir Benfro, bu Gweithredu dros Blant yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i ddarparu talebau Nadolig, hamperi Nadolig i deuluoedd a theganau i 148 o ofalwyr ifanc.

### Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr

1. Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

2. Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.




# Dan sylw – Gwydnwch Gofalwyr

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cydweithio'n agos â thîm y Rhaglen Addysg i Gleifion i hyrwyddo'r cyrsiau Cyflwyniad i Ofalu Amdanaf i ymhlith gofalwyr ar draws y rhanbarth.  Nod y rhaglen hon yw rhoi cyfle i ofalwyr ddysgu sgiliau i'w galluogi i ofalu am eu hiechyd eu hunain wrth ofalu am rywun arall, neu gefnogi gofalwyr i wneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn arwain prosiect rhanbarthol i gyflwyno'r rhaglen Gwydnwch a Llesiant Gofalwyr. Yn flaenorol, cafodd ei darparu mewn lleoliad wyneb yn wyneb traddodiadol ond, yn ystod y flwyddyn, cafodd ei hailysgrifennu er mwyn ei darparu'n rhyngweithiol ar-lein hefyd. Mae amryw o fodiwlau wedi'u datblygu, gan gynnwys: Gofalwyr Ifanc 8-13, Gofalwyr Ifanc 14–17, Gofalwyr sy'n Oedolion yn y gymuned, Hyfforddi'r Hwylusydd a sesiynau rhagflas ar Wydnwch a Llesiant.

Sefydlwyd y Prosiect Gwydnwch Gofalwyr mewn partneriaeth â rheolwyr gofal a phartneriaid yn y trydydd sector i fynd i'r afael â'r anghenion a'r pwysau ychwanegol y mae gofalwyr yn Sir Gaerfyrddin yn eu profi o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, a'u cefnogi i barhau â'u rôl ofalu. Mae mentrau cymorth a ddarperir drwy'r prosiect yn cael eu nodi drwy sgwrs 'Beth sy'n bwysig' gyda gweithiwr allweddol ac mae canlyniadau'r ymwneud yn cael eu mesur gan ddefnyddio'r Seren Canlyniadau Gofalwyr. Mae'r ymateb yn rhoi ystyriaeth i'r ystod eang o wasanaethau, o ymyriadau ataliol (e.e. gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg a Cherdyn Argyfwng Gofalwyr) sy'n hybu gwydnwch hirdymor i fewnbwn tymor byr dwys. Mae'r prosiect hefyd yn darparu llwybr sydd wedi'i gydgysylltu'n ddiogel at ofal mewn llety a chymorth ar gyfer anghenion cymhleth (seibiant).



"Roedd y cwrs 'Gofalu Amdanaf i' yn dda iawn a bydd yr ymarfer ymlacio dan arweiniad ar y diwedd yn fuddiol iawn. Tiwtor ardderchog ac roedd popeth wedi'i esbonio'n dda."

## Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2020/21

- Darparwyd **4** cwrs Gofalu Amdanaf i rhithwir a chwblhaodd **17** o ofalwyr y cwrs Cyflwyniad i Ofalu Amdanaf i. Dywedodd **85%** o'r gofalwyr a oedd yn bresennol fod yr ystod o weithgareddau a ddarparwyd yn dda i ardderchog.
- Mynychodd **24** o weithwyr proffesiynol o bob rhan o'r rhanbarth sydd â chyfrifoldeb am weithio gyda gofalwyr sesiwn ragflas ar y rhaglen Gwydnwch a Llesiant Gofalwyr a mynychodd cyfanswm o **16** o weithwyr proffesiynol y cwrs hyfforddi'r hwylusydd, ac mae **17** o weithwyr proffesiynol eraill ar restr aros ar gyfer y cwrs nesaf.

## Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr

2. Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.

1. Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

## Dan sylw – Cynllun Arloesi Rhanbarthol i Ofalwyr

Sefydlwyd y Gronfa Arloesi Cymorth i Ofalwyr ranbarthol yn 2020-21 gyda chyllid o’r Gronfa Gofal Integredig i gynnig cyfleoedd i fudiadau’r trydydd sector ymgeisio am gyllid tymor byr i ddarparu prosiectau a fyddai’n cefnogi gofalwyr ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Gweinyddwyd y gronfa hon gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), mewn cydweithrediad â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO). Gwahoddwyd ceisiadau i roi sylw i’r prif themâu sy’n cyd-fynd â’r strategaeth gofalwyr ranbarthol. Darparodd y gronfa hyd at 100% o gostau refeniw a dyfarnwyd hyd at £5,000 ar gyfer prosiectau mewn un ardal sirol a hyd at £15,000 ar gyfer prosiectau rhanbarthol. Roedd yn rhaid i’r ceisiadau ddangos buddion amlwg ac uniongyrchol i ofalwyr di-dâl a dangos gwerth am arian, ac anogwyd arian cyfatebol. Roedd diogelwch gofalwyr yn flaenoriaeth a gofynnwyd i’r holl brosiectau roi ystyriaeth i’r cyfyngiadau COVID presennol.

### Canlyniadau’r cynllun

Ariannwyd cyfanswm o **7** prosiect sirol a **2** brosiect rhanbarthol.

- Sesiynau cefnogi ffitrwydd corfforol gofalwyr (Hafal, Sir Gaerfyrddin)
- Adrodd straeon gwahanol grwpiau gofalwyr (Radio Aber Ltd)
- Sesiynau atgofion chwaraeon (Clwb Pêl-droed Hwlffordd)
- Seibiant y talwyd amdano i ofalwyr (Fforwm Trefdraeth)
- Sesiynau seibiant ychwanegol (Tŷ Shalom)
- Gwyliwch fi’n coginio a bwytewch gyda fi (Clwb Camri)
- Sesiynau ymarfer corff, crefftau a sesiynau cymdeithasol ar-lein (Oriel VC)
- Diwrnodau encil ar gyfer seibiant i ofalwyr (Holistic Yoga Care Wales – cwmni buddiannau cymunedol)
- Cymorth wedi’i dargedu i ofalwyr hŷn (Age Cymru Dyfed)




### Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr

2. Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.



# Dan sylw – cydweithio i gefnogi gofalwyr

- Yn Sir Benfro, sefydlwyd Fforwm Darparwyr i Ofalwyr yn 2020 yn ystod y pandemig Covid-19. Caiff ei hwyluso gan PAVS, ac mae'r aelodau'n cynnwys sefydliadau sy'n darparu, neu sy'n dymuno darparu, gwasanaethau i ofalwyr di-dâl o bob oedran. Nod y fforwm yw galluogi rhwydweithio a chydweithredu effeithiol a gwneud cyfraniad effeithiol at gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Crëwyd fforwm Byw gyda Dementia gan PAVS i alluogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i ddefnyddio eu profiad a'u gwybodaeth werthfawr i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu strategaethau, polisïau, gweithdrefnau a phenderfyniadau ynghylch gwasanaethau dementia. Roedd y grŵp wedi nodi bod dementia cynnar yn faes i ganolbwyntio arno a chynhaliwyd digwyddiad i dynnu sylw at brofiadau pobl sy'n cael diagnosis o dementia cynnar a'u gofalwyr. Yn sgil y gwaith hwn, gobeithir y bydd gwasanaeth dydd yn benodol ar gyfer dementia cynnar yn cael ei ddatblygu yng ngorllewin Cymru.
- Mae'r Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi grŵp gofalwyr yn Nhrefdraeth a oedd wedi parhau i gyfarfod ar-lein gan ddefnyddio Zoom a, phan gafodd y cyfyngiadau eu llacio, bu'r grŵp yn cwrdd ar gyfer teithiau cerdded llesiant rheolaidd yn yr ardal.
- Mae Cymunedau Cefnogi Pobl â Dementia Sir Benfro, mewn partneriaeth â'r prosiect Cerdded ar gyfer Llesiant Gorllewin Cymru gyda'r Parc Cenedlaethol, wedi lansio nifer o grwpiau cerdded a siarad sy'n cefnogi dementia ledled y sir. Mae'r grŵp yn cynnig cyfle i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i gymdeithasu a gwella eu llesiant corfforol a meddyliol.
- Mewn partneriaeth ag Academi Cryfder Cymru, cynhaliwyd sesiynau ymarfer corff hefyd i gynnig cyfle i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr roi cynnig ar ddosbarth ymarfer corff.
- Mae Cynghrair Gofalwyr Ceredigion wedi parhau i fynd o nerth i nerth wrth gydweithio i sicrhau y cynigir llawer o weithgareddau cymorth i ofalwyr ac y parheir i rannu gwybodaeth ymhlith ei holl bartneriaid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr mudiadau'r trydydd sector, awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol. Roedd y gynghrair yn un o'r prif gyfranwyr at ymateb y siroedd a'r ymateb rhanbarthol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynllun cenedlaethol i ofalwyr.

## Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr





"Ar ôl treulio cymaint o amser yn teimlo'n ynysig eleni, roedd yn wych i'n llesiant cael cwrdd â'r grŵp a mynd am dro yn rheolaidd."

**2.** Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.





# Dan sylw – Cyflogwyr i Ofalwyr

Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn cymryd rhan yng nghynllun Cyflogwyr i Ofalwyr Gyrfa Cymru drwy aelodaeth ymbarél. Mae pob sefydliad partner unigol wedi cyflawni camau gweithredu penodol, yn ogystal â'u cydweithrediad fel rhan o grŵp llywio rhanbarthol.


Datblygodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda grŵp gorchwyl a gorffen i symud ymlaen â nifer o fentrau mewnol, gan gynnwys y canlynol:


- Cyflawni Lefel 1 Hyderus ynghylch Cyflogwyr i Ofalwyr
- Cymeradwyo polisi gofalwyr y Bwrdd Iechyd i'r staff
- Annog staff sydd â chyfrifoldebau gofalu i rannu eu barn a'u profiadau drwy arolwg staff a gafodd ymatebion gan 88 o aelodau o staff
- Cyflwyno sesiynau Grŵp Cefnogaeth gan Gymheiriaid i Ofalwyr ar gyfer staff. Mae staff sydd wedi elwa o'n sesiynau Grŵp Cefnogaeth gan Gymheiriaid i Ofalwyr yn sôn am eu profiad yn y fideo hwn: https://www.youtube.com/watch?v=rAzzbtUAfLQ


Mae Cyngor Sir Ceredigion yn datblygu polisi gofalwyr a fydd yn cynnwys cyflwyno'r Pasbort Gofalwyr a darpariaeth ychwanegol, sef 5 diwrnod o absenoldeb gofalwr â thâl. Mae canllawiau i reolwyr a gofalwyr wedi'u hysgrifennu ar gyfer y polisi hwn a byddant yn mynd gerbron y pwyllgor craffu a'r cabinet ym mis Mai 2021, a bwriedir lansio'r polisi yn ystod Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin 2021. Yn y cyfamser, mae'r Uned Gofalwyr, ar y cyd ag Adnoddau Dynol, wedi cyflwyno sesiynau galw heibio ar-lein misol ar gyfer gweithwyr sy'n ofalwyr.

"Rydw i'n ofalwr ac ymunais â'r grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid ac roedd o gymorth mawr. Roeddwn ychydig yn swil ar y dechrau ac nid oeddwn yn sicr a fyddwn yn gallu siarad, ac roeddwn ychydig yn emosiynol wrth glywed eraill yn sôn am eu profiadau, ond roedd yn wych sylweddoli nad wyf ar fy mhen fy hun ac fy mod i'n gallu cysylltu ag eraill sy'n deall. Felly, siaradais ac roeddwn yn teimlo'n well am wneud hynny."

Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr






# Dan sylw – Cynhwysiant Digidol

Mae'r pandemig wedi arwain at fwy o ddefnydd o ddulliau cyfathrebu digidol gyda gofalwyr ac mae llawer o wasanaethau cymorth wedi bod yn gweithredu'n rhithwir.  Dangosir enghreifftiau o hyn isod.

Ffurfiwyd partneriaeth Cysylltiadau Digidol Sir Benfro yn ystod y pandemig i gefnogi pobl, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, i gael gafael ar offer a thechnoleg ddigidol. Mae'r bartneriaeth hon yn cynnwys yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd, PAVS, Llesiant Delta a Cymunedau Digidol Cymru. Dosbarthwyd Chromebooks i ofalwyr ifanc 16 – 20 oed mewn cydweithrediad â gwasanaethau cymorth i ofalwyr ifanc.




Roedd rhifyn yr haf o Gylchgrawn Gofalwyr Ceredigion yn canolbwyntio ar fuddion technoleg ddigidol i ofalwyr, gan gynnwys cyngor a chanllawiau i ofalwyr o bob oedran.  Roedd yr erthyglau yn cynnwys y canlynol:


- Astudiaeth achos gan Delta Connect o un o'u defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn elwa o'u galwadau llesiant a sut y mae'n defnyddio llinell gymorth y botwm coch
- Apiau'r GIG a dolenni i'r we i alluogi gofalwyr i geisio cymorth i gefnogi iechyd a llesiant
- Esboniad o wasanaethau galwad fideo a chanllaw 'sut i wneud'
- Yr awgrymiadau gorau gan Age UK i gefnogi ffrindiau a theulu sy'n dechrau defnyddio dyfeisiau a thechnoleg
- Manylion am sefydliadau diduedd sy'n gallu helpu pobl i fynd ar-lein
- Syniadau cadarnhaol er mwyn i ofalwyr ifanc gadw mewn cysylltiad yn ystod y cyfyngiadau symud

Roedd gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol Sir Benfro yn llwyddiannus wrth ymgeisio am gyllid clwstwr meddygon teulu i ddatblygu cynllun benthyca tabled digidol - Connect IT. Benthycwyd 100 o dabledi i bobl a oedd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu yn Sir Benfro, gan gynnwys gofalwyr di-dâl.






Mae'r tîm BmG wedi darparu nifer o sesiynau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ofalwyr ar-lein sy'n cyfannu rhaglen e-ddysgu Gofal Cymdeithasol Cymru drwy ychwanegu at y cynnwys hwn a chynnig cyd-destun a gwybodaeth leol. Mae'r pandemig wedi galluogi'r tîm i groesawu technoleg drwy ddefnyddio sesiynau fideo MS Teams sydd wedi cynyddu ymgysylltiad ar draws y rhanbarth. Darparwyd cyfanswm o 54 o sesiynau ac roedd 329 o bobl yn bresennol. Mae'r adborth wedi awgrymu y cafwyd cynnydd o 100% yng ngwybodaeth y cyfranogwyr am y meysydd a gwmpaswyd yn y sesiwn: pwy yw gofalwyr, materion y maent yn eu hwynebu, cynllun BmG a'r ffurflen a'r broses gofrestru/atgyfeirio i ofalwyr gan feddygfeydd.



"Addysgiadol iawn a chipolwg gwych i sefydliad sy'n gweithio tuag at y wobr Efydd. Byddwn yn sicr yn edrych ar y wobr Arian maes o law."

Gwnaeth Coleg Ceredigion addasu ei Gynllun Partneriaeth â Gofalwyr wrth ymateb i'r pandemig Covid-19 a chefnogodd myfyrwyr Coleg Ceredigion Wythnos Gofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys y canlynol:


- Datblygu fideo agoriadol o gefnogaeth i ofalwyr gan fyfyrwyr Coleg Ceredigion i sicrhau bod gofalwyr yn fwy gweladwy ar-lein a chodi ymwybyddiaeth o Wythnos Gofalwyr.
- Creu cwis gwybodaeth gyffredinol Coleg Ceredigion.
- Cynnal "Codi dishgled" (ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol) i gydnabod y gwaith gwych y mae gofalwyr yn ei wneud.

Mae'r holl bartneriaid wedi defnyddio dulliau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol i ddangos nifer o straeon fideo gofalwyr yn ystod Wythnos Gofalwyr 2020.

Darparodd Cyngor Sir Penfro sesiwn holi ac ateb ar Facebook Live ynghylch hawliau cyflogaeth a mynd yn ôl i'r gwaith. Yn Sir Gaerfyrddin, mae partneriaid yn y trydydd sector wedi dod o hyd i ffyrdd newydd a gwahanol o ddarparu eu gwasanaethau i ofalwyr fel ymateb i Covid-19. Mae Age Cymru wedi darparu prosiect cynhwysiant digidol, gan sicrhau bod cymorth priodol a dibynadwy er mwyn i bobl gael gwybodaeth a chyfleoedd ar-lein.

Hefyd, roedd recordiad ar-lein o '*An informative overview of 'Carers Rights and the Law' by Professor Luke Clements*' ar gael i bawb ar draws y rhanbarth. Cynigiodd Uned Gofalwyr Ceredigion dair sesiwn fyw ar-lein gyda Luke Clements: Hawliau Gofalwyr, Hawliau Gofalwyr i Ofalwyr sy'n Rhieni a Hawliau Gofalwyr i Weithwyr Proffesiynol sy'n Gweithio gyda Gofalwyr.

## Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr



## Blaenoriaethau ar gyfer 2021/2022

Mae gofalwyr a'r agenda gofalwyr yn flaenoriaeth yng Nghynllun Ardal Gorllewin Cymru. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi mabwysiadu gofalwyr yn flaenoriaeth hanfodol, gan gydnabod yn benodol yr effaith drawsbynciol a'r cysylltiadau ar draws ei holl raglenni gwaith allweddol.

Mae camau gweithredu allweddol ein strategaeth gofalwyr ranbarthol yn seiliedig ar farn ac adborth gan ofalwyr a rhanddeiliaid allweddol a byddwn yn parhau i weithio i weithredu'r egwyddorion a fydd yn sail i'r strategaeth ranbarthol:

- Mynd i'r afael â'r prif ofynion, bylchau a gwelliannau a nodwyd drwy Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru a'r amcanion yn y Cynllun Ardal
- Ymateb i flaenoriaethau Gweinidogol ynghylch cefnogi gofalwyr
- Cyfannu ac integreiddio ystod o fentrau gofalwyr ar draws y rhanbarth i gynyddu gwelededd o ran anghenion gofalwyr di-dâl
- Sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu cynrychioli drwy'r Rhaglen Trawsnewid Gorllewin Cymru Iachach

Dyma rai o'n blaenoriaethau ar gyfer 2021/22:

1. Arwain adolygiad o'r asesiad o anghenion gofalwyr, gan ddefnyddio data a thystiolaeth bresennol a newydd i lywio'r gwaith o ddiweddaru'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gorllewin Cymru.
2. Parhau i ddatblygu'r defnydd o gardiau gofalwyr a'r manteision y mae'r rhain yn eu cynnig er mwyn annog gofalwyr o bob oedran i nodi eu bod yn ofalwyr a chael cymorth ychwanegol sydd ar gael drwy wasanaethau gwybodaeth ac allgymorth i ofalwyr.
3. Adolygu'r cymorth a gynigir i ofalwyr ifanc yng ngorllewin Cymru a chynnwys gofalwyr ifanc yn y broses i sicrhau bod gwasanaeth arloesol sy'n cynnwys yr arferion gorau yn cael ei ailgomisiynu ar gyfer 2022/23.
4. Cyflwyno'r hyfforddiant hwyluswyr Gwydnwch a Llesiant, er mwyn ehangu'r cymorth a gynigir i'r rheiny sydd mewn cyflogaeth ac sydd â rôl ofalu. Bydd hyn yn cyd-fynd â lansio polisi gofalwyr awdurdod lleol Ceredigion ym mis Mehefin 2021.
5. Bod yn weithredol wrth hyrwyddo aelodaeth ranbarthol Cyflogwyr i Ofalwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar gydweithio â gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus, yn ogystal â mentrau bach a chanolig.
6. Parhau i annog ymwneud â'r cynllun achredu Buddsoddwyr mewn Gofalwyr a chefnogi dilyniant drwy lefelau'r gwobrau.
7. Cydweithio ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynwyd, i wneud y defnydd mwyaf posibl o wasanaethau digidol.

# Casgliad

Mae gofalwyr yn ffocws sylfaenol yng Nghynllun Ardal Gorllewin Cymru 2018-2023 sy'n amlinellu anghenion ein cymunedau ar draws gorllewin Cymru a sut y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ymateb i'r rhain. Rydym yn wynebu newidiadau digynsail ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio. Hefyd, mae angen darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol mewn ymateb i'r pandemig Covid-19 ac mae nifer y gofalwyr di-dâl sydd wedi nodi eu bod yn ofalwyr wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn. Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i gydweithio i ddarparu cymorth i ofalwyr yn ein cymunedau mewn ffyrdd newydd ac arloesol, ac i sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu hystyried ym mhob cam o'u taith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi cynnig trosolwg o'r ystod eang o weithgarwch sydd wedi bod yn mynd rhagddo yng ngorllewin Cymru i wella canlyniadau i ofalwyr. Er bod yr adroddiad wedi canolbwyntio ar y gwaith a arweiniwyd drwy Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru a sut y defnyddiwyd cyllid Llywodraeth Cymru, y Gronfa Gofal Integredig a chyllid craidd gan sefydliadau partner i gefnogi'r gwaith hwn, cydnabyddir bod nifer o sefydliadau a grwpiau eraill yng ngorllewin Cymru sydd hefyd yn darparu cymorth a gwasanaethau gwerthfawr i ofalwyr.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda ddydd Mercher, 22 Medi 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Gethin Davies, Odwyn Davies, Keith Evans, Hag Harris, Lyndon Lloyd MBE, Dan Potter, John Roberts, Lynford Thomas ac Ivor Williams.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant ac Alun Williams

Roedd y Cynghorydd Euros Davies yn bresennol hefyd.

10.00am – 12.50pm

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Marc Davies, Peter Davies, Elaine Evans, Maldwyn Lewis, Alun Lloyd-Jones a Mark Strong am na fedrent ddod i'r cyfarfod. Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge am na fedrai ddod i'r cyfarfod am ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

2 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau chwipio)**

Ni chafwyd dim datganiadau

3 **Eglurhad o'r weithdrefn i ymdrin ag achosion o Dipio Anghyfreithlon**

Cyflwynodd Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, adroddiad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r heriau yn sgil COVID-19 a sut y blaenoriaethir y gwaith ar hyn o bryd. Rhoddodd fraslun o'r fframwaith deddfwriaethol a'r gwaith gorfodi o ran tipio anghyfreithlon, o ran rheoliadau RIPA ar fonitro â chamerâu, a'r rheoliadau parthed perchnogaeth tir a'r cyfrifoldeb dros ymdrin â thipio anghyfreithlon ar dir preifat.

Nodwyd bod y Cyngor yn monitro lleoliadau lle ceir trafferthion (gorfodi rhagweithiol) yn ogystal ag ymchwilio i gwynion a ddaw i law (gorfodi adweithiol). Nodwyd bod 375 o achosion o dipio anghyfreithlon wedi'u cofnodi yn 2020-2021 a bod 106 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi hyd yma eleni (rhwng 1 Ebrill ac 18 Awst 2021). Yn 2020-2021 cyhoeddwyd 2 hysbysiad cosb benodedig yn sgil gorfodi rhagweithiol, a dim un yn sgil gorfodi adweithiol, sef gostyngiad ar y blynyddoedd blaenorol. Cyflwynwyd un rhybudd yn 2020-2021 yn sgil gorfodi rhagweithiol.

Hefyd mae'r adroddiad yn rhoi braslun o'r cydweithio gyda 'Cadwch Gymru'n Daclus', Caru Ceredigion ac Awdurdodau lleol cyfagos.

**Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:**

- Nododd yr Aelodau fod pryderon ynghylch tipio anghyfreithlon wedi'u codi drwy CLIC, ond bu diffyg o ran yr ymateb. Gofynnon nhw hefyd am rannu â'r holl Gynghorwyr gopi o'r matrics sy'n amlinellu lle mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd. Nododd swyddogion y byddent yn ymchwilio i'r mater ac yn darparu copïau o'r matrics.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd gosod camerâu cylch cyfyng ar gefnffyrdd a thir preifat. Cadarnhaodd y swyddogion nad oes gyfyngiadau, tra bod cytundeb gyda pherchennog y tir.
- Gofynnodd yr Aelodau a ellid defnyddio mwy o dechnoleg i fonitro'r sbwriel a adewir wrth ochr sgipiau, neu a ellid darparu sgipiau sydd ag agoriad ar yr ochr yn hytrach na gorfod taflu eitemau dros y top.
- Nododd yr Aelodau nad yw Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn gwaredu ag eitemau a dipiwyd yn anghyfreithlon hyd nes bod aelod o'r tîm Diogelu'r Cyhoedd yn archwilio'r cynnwys. Gofynnwyd a ellid symud yr eitemau i Benrhos neu Glanyrafon i'w harchwilio. Nododd swyddogion eu bod yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r tîm Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i adolygu pryderon megis cyflwyno gwastraff yn gynnar, ac y byddant yn codi'r mater hwn gyda nhw.
- Awgrymodd yr Aelodau fod y Tîm Diogelu'r Cyhoedd yn cyhoeddi gwybodaeth ynghylch hysbysiadau cosb benodedig er mwyn addysgu a chynyddu ymwybyddiaeth o hyn. Nododd y Swyddog y byddent yn ystyried hyn.
- Awgrymodd yr Aelodau fod yr adroddiad yn cael ei rannu â Chynghorau Tref a Chymuned, er mwyn iddynt fedru cyfrannu.
- Nododd yr Aelodau fod nifer o gwynion yn dod i law ynglŷn â diffyg biniau, ond mae llawer o fusnesau tecawe bellach yn defnyddio cardbord sy'n llenwi'r biniau'n gyflymach na phapur. Gofynnwyd felly a ellid gwneud unrhyw beth o ran gofyn i fusnesau gyflenwi eu biniau eu hunain. Nododd y Swyddog fod cydlynydd 'Cadwch Gymru'n Daclus' wedi'i benodi'n ddiweddar ac y byddent yn gofyn iddi hi rannu'r neges hon gyda swyddogion eraill ledled Cymru i'w hystyried fel prosiect.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad.

4 **Trosolwg ar wasanaethau Wardeiniaid Cymunedol a Rheoli Plâu y gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd**

Rhoddodd y Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu am y materion y mae Gwasanaeth Wardeiniaid Cymunedol yr adran Diogelu'r Cyhoedd yn eu hwynebu, yn enwedig y Gwasanaeth Rheoli Plâu.

Nodwyd, ers mis Mawrth 2020, bod y Gwasanaeth Wardeiniaid Cymunedol wedi bod yn gweithredu gyda dim ond un Warden Cymunedol yn lle dau, gan roi blaenoriaethu i gwynion/ceisiadau ar sail eu risg i iechyd y cyhoedd. O fis Medi 2021 ymlaen bydd y gwasanaeth yn dychwelyd i ddau swyddog llawn-amser.

Data sy'n ymwneud â nifer y ceisiadau a gofnodwyd bob blwyddyn ers 2016. Amlinellwyd dyletswydd statudol yr Awdurdod a nodwyd y bydd angen i'r awdurdod gael ei achredu o dan y cynllun SSIP er mwyn ailddechrau'r gwaith o roi abwyd mewn carthffosydd law yn llaw â Dŵr Cymru.

Rhoddwyd amlinelliad hefyd o'r Gwasanaethau Rheoli Plâu ar Ffermydd a gynigir gan Gyngor Sir Ceredigion, hefyd am Wardeiniaid Cŵn a'r Gwasanaeth

Gorfodi Baeddu gan Gŵn. Nodwyd bod pedwar swyddog dros dro wedi'u penodi dros yr haf gan ddefnyddio cyllid caledi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ymwelwyr yn ymweld â Cheredigion mewn modd diogel a chyfrifol.

Yn ogystal â chael achrediad SSIP, nodwyd bod y Gwasanaeth yn bwriadu creu Polisi newydd Rheoli Plâu yn nodi’r taliadau am wahanol wasanaethau rheoli plâu, gan ddiogelu o’r newydd y rhai sydd ar incwm isel neu’n aelwydydd bregus. Hefyd, bod y Gwasanaeth yn bwriadu ystyried ffyrdd eraill o gynyddu patrolau / gwaith gorfodi baw cŵn.

**Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:**

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd tipio anghyfreithlon i mewn i ddraeniau yn bryder hefyd. Nododd swyddogion fod hyn yn berthnasol hefyd i fraster ac olew a bod deddfwriaeth wedi'i chyflwyno tua thair neu bedair blynedd yn ôl yn gwahardd peiriannau malu - *macerators.*
- Nododd yr Aelodau eu bod wedi cael gwybod nad oedd gan swyddog ar ei ben ei hun yr hawl i godi clawr twll archwilio a gofynnwyd a ellid darparu offer i gynorthwyo gyda hyn. Nododd y swyddog mai eiddo Dŵr Cymru yw caeadau tyllau felly nid oes gan swyddogion awdurdod i godi'r rhain, ac mae angen achrediad SSIP er mwyn gwneud gwaith o'r fath.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr ymosodiadau cynyddol gan gŵn ar ddefaid yn fater i'r Gwasanaeth hwn, gan nodi bod y cyhoedd yn cysylltu â'r Heddlu fel rheol ar faterion o'r fath.
- Gofynnodd yr Aelodau a yw swyddogion sy'n trin gwenwyn yn cael archwiliadau iechyd yn rheolaidd. Cadarnhaodd y swyddogion fod hyn yn arfer digwydd yn rheolaidd ac y byddai’n ailddechrau cyn bo hir.
- Gofynnodd yr Aelodau ynghylch adnoddau staffio. Nododd y Swyddog fod yna ddau aelod o staff llawn-amser erbyn hyn ac y byddai hyn yn cael ei adolygu ar ôl ailgychwyn ar y gwaith gyda ffermydd a gwenyn ac ati.
- Gofynnodd yr Aelodau am ein hawliau mewn perthynas â chŵn yn baeddu ar lwybrau cyhoeddus. Nododd y Swyddog mai'r her yw eu dal yn y weithred o wneud hynny.
- Nododd yr Aelodau yr hoffent weld adroddiad yn disgrifio ffordd glir ymlaen o ran rheoli llygod yn hytrach nag adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa.

**Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i:**
Adolygu'r sefyllfa mewn 6 mis, a bod y Gwasanaeth yn darparu adroddiad manwl yn amlinellu'r incwm a gynhyrchir a ffordd glir ymlaen o ran ymdrin â'r materion y tynnwyd sylw atyn nhw yn yr adroddiad.

**5 Diweddariad ar y Canolfannau Llesiant a datblygiadau yng Nghanolfan Llesiant Llambed**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cymorth Cynnar adroddiad i’r Pwyllgor a oedd yn rhoi’r diweddaraf am y datblygiadau diweddar yn y gwasanaeth. Rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor fod y Gwasanaeth wedi bod yn adolygu’r cynnydd o ran “Strategaeth Gweithgareddau Chwaraeon a Hamdden 2014-2020” Ceredigion wrth baratoi ar gyfer y gwaith o ddatblygu cynllun newydd a fydd yn weithredol o 2022-2027. Nodwyd bod gwaith

ymgysylltu cyhoeddus cychwynnol yn mynd rhagddo a fydd yn bwydo i'r cynllun datblygu gan greu sail ar gyfer cam nesaf y broses ymgysylltu.

Canolfan Hamdden Llambed fydd lleoliad Canolfan Llesiant gyntaf y Cyngor a fydd yn darparu ystod o wasanaethau Gydol Oes i drigolion Llanbedr Pont Steffan a chanol y sir. Bwriadwyd yn wreiddiol mai Plascrug fyddai'r ganolfan gyntaf ond oherwydd bod Plascrug yn cael ei defnyddio fel ysbyty maes roedd angen i'r Gwasanaeth ystyried datblygu Canolfan Llesiant mewn rhan arall o'r sir. Ar y 1af o Ragfyr 2020, cymeradwyodd y Cabinet y cynnig i ddatblygu Canolfan Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan. Roedd y Gwasanaeth yn awyddus i sicrhau na fyddai'r arian yn cael ei golli ac i'w ddefnyddio mewn lle arall.

Mae costau dangosol yn awgrymu y gall cyllid grant dalu am y costau adeiladu ond ni fydd y costau terfynol yn hysbys hyd nes bod y broses dendro wedi digwydd. Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau erbyn Mehefin / Gorffennaf 2022. Bydd y Ganolfan Hamdden ar gau yn ystod y gwaith adeiladu ond cafwyd trafodaethau cadarnhaol gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ynglŷn â defnyddio ar y cyd eu cyfleusterau chwaraeon nhw yn ystod y cyfnod hwn.

**Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:**

- Nododd yr Aelodau fod pryder wedi'i fynegi gan dîm Pêl-rwyd Llewod Llambed ynglŷn â bod gostwng maint y Neuadd o bedwar i dri chwrt badminton yn creu cwrt pêl-rwyd sy'n llai na chwrt maint llawn. Nododd y Swyddog fod llythyr wedi'i anfon at Lewod Llambed ddydd Iau yn eu gwahodd i gyfarfod â'r Aelod Cabinet, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Rheolwr Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar, ond nid oes ymateb wedi dod i law hyd yma. Nodwyd bod y Gwasanaeth wedi siarad â'r holl glybiau eraill sy'n defnyddio'r Neuadd yn rheolaidd, ac ni chafwyd dim gwrthwynebiadau eraill. Nodwyd bod gemau'r Gynghrair Pêl-rwyd yn cael eu cynnal yn Aberaeron a bod y cyrtiau yn Llanbedr Pont Steffan yn cael eu defnyddio ar gyfer ymarfer yn unig. Bydd cyfleusterau ymarfer yn parhau i gael eu darparu yn y neuadd. Mae dau gwrt maint llawn arall ar gael yn yr awyr agored. Nododd y Swyddog fod y Cyngor wrthi'n trafod gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan ynghylch rhannu eu cyfleusterau tra bod gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Mae'r cwrt a ddarperir gan y Brifysgol yn fwy ac yn 1 metr yn brin o faint cwrt pêl-rwyd safonol. Nodwyd bod Cymdeithas Pêl-rwyd Cymru hefyd yn datblygu'r gamp i gynnwys Pêl-rwyd Cerdded, Pêl-rwyd Eistedd a Phêl-rwyd *Tiny Tots* a bydd datblygu'r Canolfannau Lles yn hwyluso mwy o ddefnydd o'r ganolfan gan y trigolion i gyd.
- Gofynnodd yr Aelodau a oes canllawiau o ran maint cyrtiau. Nododd swyddogion mai 4 cwrt badminton yw maint y neuaddau safonol, ond mae rhai neuaddau'n llai, eraill yn fwy. Nid oes rheol gyfreithiol mewn perthynas â hyn.
- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosib adeiladu estyniad ar ochr yr adeilad yn hytrach nag aildrefnu'r cynllun tu fewn. Nododd y Swyddog y gellir defnyddio'r grant a nodir i addasu asedau at ddefnydd ehangach y gymuned, er mwyn ehangu'r defnydd posib a wneir o'r ased dan sylw,

felly nid yw hyn yn opsiwn. Nodwyd, os na chaiff yr arian grant ei wario, y byddai'n cael ei golli.

- Nododd yr Aelodau eu bod yn croesawu Canolfan Llesiant ond nad oeddent am weld hyn yn digwydd ar draul y Neuadd Chwaraeon. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at yr angen i ymgynghori ag ieuenctid Ceredigion, yn ogystal â'r henoed. Nododd y Swyddog fod adolygiad a gynhaliwyd gan 'Just Solutions' yn 2018 wedi nodi nad oedd yr adeilad a'r ddarpariaeth ar y pryd yn gynaliadwy. Bryd hynny, roedd trafodaethau wedi'u cynnal er mwyn ceisio diwallu anghenion pawb, gan gynnwys anghenion pobl a theuluoedd bregus, a phenderfynwyd y gellid trawsnewid y Canolfannau Hamdden yn Ganolfannau Llesiant i ddiwallu anghenion trigolion Ceredigion. Mae'r Canolfannau Llesiant yn rhan o strategaeth ehangach i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl o bob oed.
- Nododd yr Aelodau mai ychydig o wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â'r ailstrwythuro mewnol arfaethedig. Nododd y Swyddog fod datblygu'r Canolfannau Llesiant yn rhan annatod o'r Rhaglen a'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant. Rhannwyd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu â'r Aelodau mewn cyfarfod Craffu ddydd Gwener. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgysylltu â'r gymuned er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu.
- Nododd yr Aelod Cabinet fod gwybodaeth am gyllid a lleoliad y Ganolfan Llesiant gyntaf yn Llanbedr Pont Steffan wedi'i chyflwyno i'r Cabinet ac na alwyd y mater i mewn bryd hynny.
- Nododd Aelod fod pwyslais datblygiadau o'r fath yn tueddu i fod ar y tair prif dref yng Ngheredigion a bod ardaloedd fel Llandysul a Thregaron yn colli allan i'r trefi hyn. Nododd y Swyddog y byddai darpariaeth allgymorth a darpariaeth dros dro hefyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau eraill.
- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith ailstrwythuro ac a fyddai'r rheoliadau cynllunio newydd - sy'n deillio o'r lefelau uchel o ffosffadau a geir yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi - yn cyfyngu ar y datblygiad. Argymhellwyd bod cais cyn-cynllunio yn cael ei gyflwyno.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Gwasanaeth yn ymgynghori gydag awdurdodau cyfagos ynghylch darpariaeth o'r fath. Cadarnhaodd y swyddogion fod hyn ar waith.

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'n cysylltu â thîm Pêl-rwyd Llewod Llambed i roi gwybod iddynt fod dal cyfle ar gael iddynt drafod eu pryderon.

**ARGYMHELLIAD:**

- Rhannu gwybodaeth a derbyn sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Cytunodd yr Aelodau i argymell y canlynol i'r Cabinet:

- Bod y Pwyllgor yn parchu bod y penderfyniad ynghylch datblygu'r Canolfannau Llesiant wedi'i wneud gan y Cabinet.

  Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr holl wybodaeth a ddarperir gan Swyddogion i Aelodau'r Cabinet yn cael ei rhannu'n llawn gyda'r Aelodau

perthnasol. Hefyd mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig fod gwybodaeth yn cael ei rhannu â’r holl randdeiliaid, ac y cesglir eu barn, pan fo'n briodol.

**6 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021**

Cyflwynodd Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd, adroddiad i’r Pwyllgor i roi gwybod iddynt am reoliadau newydd Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy’n ymwneud ag Anifeiliaid (Cymru) 2021 a ddaeth i rym ar 10 Medi 2021, a’r gofynion ychwanegol sy’n deillio ohonynt.

Efallai y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn mynnu bod llawer o sefydliadau lleol sy’n gwerthu anifeiliaid fel rhai anwes, er elw, yn gorfod cael trwydded. Ond mae bridwyr cŵn sydd wedi’u trwyddedu o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 wedi’u heithrio ac ni fydd angen dwy drwydded arnynt. Mae’r amodau a osodir ar y drwydded yn hybu safonau lles, sydd hefyd yn diogelu’r cwsmer. Mae’r adroddiad hefyd yn nodi’r canllawiau statudol parthed gofynion y drwydded.

Nodwyd ei bod yn bosib y bydd y system drwyddedu newydd yn achosi gwaith ychwanegol i’r tîm Diogelu’r Cyhoedd ond yn sgil gwaith diweddar a wnaed gan y tîm, mae’r gydymffurfiaeth ag amodau trwyddedau wedi gwella ar draws pob sefydliad trwyddedig. Pwysleisiwyd bod gweithredu “Cyfraith Lucy” yn gwella’r safonau lles y mae Cyngor Sir Ceredigion yn ceisio’u cynnal ar draws holl sectorau’r diwydiant anifeiliaid.

**Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:**

- Gofynnodd yr Aelodau a ddylai cŵn sydd wedi'u croesfridio gofrestru gyda'r Kennel Club, ac a fyddai'r gwaith ychwanegol yn cael effaith ar staffio at ddibenion cynnal arolygiadau. Nododd swyddogion na fyddai angen i bob bridiwr cŵn gofrestru ond os bydd anifail anwes yn cael mwy na thair torraid o gŵn bach y flwyddyn, gallent ddisgyn i'r categori hwn yn ddamweiniol. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai Swyddogion yn gorfod defnyddio’u crebwyll. Nododd y Swyddogion eu bod yn croesawu'r ddeddfwriaeth hon a bod gwaith cydymffurfio diweddar wedi arwain at wella safonau ledled y Sir.

**Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i nodi’r adroddiad.**

**7 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 24.06.2021 ac ystyried unrhyw faterion sy’n codi ohonynt**

CYTUNWYD i gadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2021 yn gywir.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar xxxx 2021**

**Cadeirydd:**